SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU
A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE POLICE & CRIME COMMISSIONER NORTH WALES

Dogfen Bolisi / Policy Document

**SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSSEDD GOGLEDD CYMRU**

**CANLLAWIAU Y CYNLLUN YMWELWYR DALFEYDD ANNIBYNNOL**

**SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

**CANLLAWIAU Y CYNLLUN YMWELWYR DALFEYDD ANNIBYNNOL**

**Cynnwys**


1. AMCANION Y CYNLLUN ....... 2
2. SEFYDLU'R CYNLLUN ....... 2
3. YMWELWYR DALFEYDD ANNIBYNNOL ....... 2
4. YMWELD Â DALFEYDD – Y TREFNIADAU ....... 6
5. YMWELD Â DALFEYDD – Y DREFN ....... 9
6. DIDUEDDRWYDD A CHYFRINACHEDD ....... 19
7. ADRODDIADAU'R YMWELWYR DALFEYDD A CHAMAU DILYNOL ....... 21
8 MONITRO'R CYNLLUN ....... 22
9 GWYBODAETH YCHWANEGOL ....... 22
10 CANLLAWIAU CYHOEDDUSRWYDD ....... 23


Mae'r Swyddfa Gartref wedi cynhyrchu Cod Ymarfer ar gyfer Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol, y mae'r polisi hwn wedi ei seilio arno fo. Mae'r Cod ar gael ar y rhyngrwyd, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r polisi hwn.

## 1. AMCANION Y CYNLLUN

Pwrpas y Cynllun yw galluogi unigolion o'r gymuned leol i arsylwi a hysbysu ar amodau carchariad carcharorion yn y dalfeydd. Y nod yw cynyddu hyder y cyhoedd bod yr Heddlu'n trin carcharorion yn deg ac yn gywir, amddiffyn carcharorion a'r Heddlu, a thawelu meddyliau'r cyhoedd.

## 2. SEFYDLU'R CYNLLUN

Sefydlwyd y cynllun gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru mewn ymgynghoriad â Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru. Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd sy'n gyfrifol am weithredu'r Cynllun.

### 2.1 Rheolaeth y Cynllun

Mae Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi dirprwyo rheolaeth dydd i ddydd y Cynllun i Weinyddwr y Cynllun.

### 2.2 Gweinyddwr y Cynllun

Swyddogaeth Gweinyddwr y Cynllun yw sicrhau fod y Cynllun yn cael ei redeg yn gywir, ac yn benodol:

- Rheoli recriwtio, dethol a hyfforddi Ymwelwyr Dalfeydd newydd
- Cymryd camau priodol i ddatrys unrhyw bryderon neu broblemau gydag amodau neu weithdrefnau'r dalfeydd a godwyd gan yr Ymwelwyr Dalfeydd yn eu hadroddiadau
- Hysbysu'r Ymwelwyr Dalfeydd ynghylch datblygiadau yng Nghynllun Gogledd Cymru
- Diweddaru Ymwelwyr Dalfeydd gyda phroblemau cenedlaethol o ran ymweliadau dalfeydd
- Cynnal cyfarfodydd adolygu gyda holl recriwtiaid newydd a phob tair blynedd wedi hynny gyda holl Ymwelwyr Dalfeydd
- Ymdrin ag unrhyw broblemau sy'n codi o ran gweithrediad y Cynllun, gan gynnwys unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad, perfformiad neu gyfraniad Ymwelwyr Dalfeydd unigol

## 3. YMWELWYR DALFEYDD ANNIBYNNOL

### 3.1 Cymhwystra

Gall unrhyw un sydd dros 18 oed (adeg penodi) ac sy'n byw neu'n gweithio yn un o'r chwe sir sy'n ffurfio ardal blismona Gogledd Cymru gael eu hystyried gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer eu penodi yn Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol. Mae hyn yn amodol ar y gofynion isod. Dylai Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol fod yn unigolion annibynnol o gymeriad da. Gofynnir i bob ymgeisydd gynnwys manylion unrhyw euogfarnau, ar wahân i euogfarnau sydd wedi darfod dan ddarpariaethau Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974, ar y ffurflen gais. Gofynnir iddynt hefyd ganiatáu i'r heddlu wneud ymholiadau fetio arnynt cyn iddynt gael eu penodi yn y lle cyntaf, a chyn i gontractau sydd eisoes yn bodoli gael eu hadnewyddu. Disgwylir i'r ymgeiswyr ddangos bod ganddynt sgiliau cyfathrebu da ynghyd â'r gallu i weithio gydag eraill.

Hefyd bydd angen i'r ymgeiswyr lenwi holiadur meddygol cyn iddynt gael eu penodi, cyn i'w contract presennol gael ei adnewyddu.

Ni fydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn penodi ynadon cyfredol, cyn ynadon, swyddogion heddlu, cyn swyddogion heddlu, swyddogion cefnogi cymuned, staff yr heddlu, swyddogion gwirfoddol nac oedolion priodol yn Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol. Efallai y bydd eraill hefyd yn cael eu heithrio ar ôl trafod gyda'r ymgeisydd unigol os oes ganddo/i unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol h.y. cyfreithwyr neu swyddogion prawf.

3.2 <u>Recriwtio</u>

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn recriwtio Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol trwy wahodd ceisiadau gan, ac sy'n gynrychioliadol o'r gymuned leol. Gwneir hyn trwy gyfrwng hysbysebion neu gyhoeddusrwydd arall yn y cyfryngau lleol, ac unrhyw ddull arall a ystyrir yn briodol gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ceisio recriwtio Ymwelwyr Dalfeydd o bob rhan o'r gymuned. Gwneir hyn er mwyn iddynt adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau o ran hil, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oed a'r iaith Gymraeg, yn unol â pholisïau Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd rydym yn gofyn i bobl gysylltu â ni os oes ganddynt ddiddordeb mewn bod yn Ymwelydd Dalfeydd. Fe gedwir eu manylion, gyda chaniatâd, ar gronfa ddata gan Weinyddwr y Cynllun a byddwn yn cysylltu â nhw pan fydd llefydd gwag ar gael.

3.3 <u>Y Drefn Gwneud Cais</u>

Bydd unrhyw un sydd â diddordeb yn cael Pecyn Cais fydd yn cynnwys gwybodaeth gefndirol am y Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol, Ffurflen Gais, Swydd Ddisgrifiad, Manyleb yr Unigolyn a Holiadur Monitro Cyfleoedd Cyfartal. (Atodiad A)

Ymdrinnir â phob cais yn ôl ei haeddiant, ond y ffactor bwysicaf fydd atal unrhyw wrthdaro mewn buddiannau ymysg yr unigolion a chynnal annibyniaeth a chywirdeb y Cynllun.

Mewn achosion pan fydd gan ymgeisydd euogfarnau troseddol (sydd wedi dod i ben neu beidio), neu pan fydd yr ymgeisydd wedi derbyn rhybudd, rhybuddiad neu gerydd ffurfiol, neu pan fydd wedi methu â dadlennu unrhyw ganfyddiad o'r fath, bydd yr amgylchiadau penodol yn cael eu hystyried wrth asesu pa mor addas fyddai caniatáu i'r unigolyn hwnnw fod yn Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol. Fodd bynnag, ni fydd euogfarnau troseddol o'r gorffennol o angenrheidrwydd yn gwneud unigolyn yn anghymwys.

Y Prif Weithredwr fydd gan y penderfyniad olaf ar addasrwydd am benodiad. Gweler Atodiad C – Cadarnhau penodiad, ailbenodiad a'r weithdrefn apeliadau.

3.4 Dethol

Gwahoddir ymgeiswyr i fynychu cyfweliad ffurfiol gyda Gweinyddwr y Cynllun a Chydlynydd yr ardal y byddai'r ymgeisydd yn cael ei benodi i weithio ynddi.

Ar ôl y cyfweliadau, bydd y panel cyfweld yn penderfynu pwy fydd yn cael ei benodi, ac fe hysbysir y Panel Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol o hyn yn ei gyfarfod nesaf. Ni fydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaethau nac unrhyw ohebiaeth mewn perthynas â cheisiadau aflwyddiannus. Ni fydd unrhyw un yn cael ei benodi'n Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol heb gyfweliad.

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ceisio sicrhau fod y tîm o Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol yn gynrychioliadol o'r gymuned leol ac yn cynnig cydbwysedd priodol o safbwynt oed, rhyw ac ethnigrwydd.

Gwneir pob ymdrech rhesymol i ganiatáu i unigolion ag anabledd gymryd rhan, yn ogystal ag unigolion sydd ag iaith gyntaf heblaw Cymraeg neu Saesneg os ydynt yn ymgeiswyr priodol.

3.5 Hyfforddiant

(i) Cwrs Hyfforddi Undydd

Bydd rhaid i bob Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol fynychu cwrs hyfforddi undydd cyn iddynt ddechrau ymweld â dalfeydd.

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn rhoi hyfforddiant i'r Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol ar natur y rôl a'u cyfrifoldebau. Lluniwyd yr hyfforddiant gyda'r nod o roi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i'r Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol newydd er mwyn iddynt allu cyflawni eu rôl yn effeithiol.

(ii) Ymweliad Hyfforddi â Dalfa

Mae'n rhaid i bob Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol fynychu ymweliad hyfforddi â dalfa cyn iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau.

(iii) Ymweliadau Hyfforddi gydag Ymwelydd Profiadol

Disgwylir i Ymwelwyr Dalfeydd newydd gwblhau dau ymweliad yng nghwmni Ymwelwyr Dalfeydd profiadol fel rhan o'u hyfforddiant cyn iddynt ymgymryd â'u rôl. Yr "hyfforddai" fydd y trydydd unigolyn ym mhob un o'r ymweliadau hyfforddi hyn (gweler paragraff 4.2 – Ymweld mewn Parau).

Yn ogystal â'r hyfforddiant cychwynnol, disgwylir i'r Ymwelwyr Dalfeydd fynychu seminarau hyfforddi fydd yn cael eu trefnu, fel sy'n briodol, yn ystod cyfnod eu penodiad. Efallai y bydd y seminarau hyfforddi hyn yn cael eu cynnal fel rhan o gyfarfodydd chwarterol y panel.

3.6 Penodi ac Achredu

Gwahoddir ymgeiswyr llwyddiannus i fod yn Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol a gofynnir iddynt lofnodi Memorandwm o Ddealltwriaeth (Atodiad B) sy'n crynhoi beth yw eu cyfrifoldebau ynghyd â disgwyliadau cyfreithiol y ddau barti.

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn rhoi cerdyn adnabod i bob Ymwelydd Dalfeydd fydd yn cynnwys eu llun, enw, teitl, a'r dyddiad y daw'r cerdyn yn annilys. Bydd y cerdyn adnabod yn rhoi'r hawl i'r daliwr ymweld ag unrhyw ddalfa "ddynodedig" neu "heb fod yn ddynodedig" yng Ngogledd Cymru. Yn ymarferol, gan amlaf bydd yr ymweliadau wedi'u cyfyngu i'r ardal y penodwyd yr Ymwelydd Dalfeydd iddi, neu i ardal arall y cytunir arni ymlaen llaw. Bydd pob unigolyn yn cael cadarnhad o hyn pan gaiff ei b/phenodi. Dim ond gyda chymeradwyaeth blaenorol y Cydlynydd a benodwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn yr ardal berthnasol, yn ogystal â Gweinyddwr y Cynllun y bydd ymweliadau oddi allan i'r ardal hon yn cael eu cynnal.

Dim ond i'r diben o ymweld â dalfeydd y dylai Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol ddefnyddio eu cardiau adnabod. Os darganfyddir bod unrhyw un yn defnyddio ei gerdyn i unrhyw ddiben arall, bydd y cerdyn yn cael ei gymryd oddi arno/i ac efallai y terfynir penodiad yr unigolyn dan sylw fel Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol.

3.7 Cyfnod Prawf

Ar ôl iddynt gael eu penodi bydd rhaid i'r Ymwelwyr Dalfeydd gwblhau cyfnod prawf o chwe mis. Bydd Gweinyddwr y Cynllun yn monitro'r nifer o ymweliadau a gynhelir gan bob Ymwelydd Dalfeydd ynghyd ag unrhyw faterion sy'n codi yn ystod y cyfnod prawf. Fe drafodir unrhyw faterion o bryder yn ystod y cyfarfod adolygu chwe mis.

Bydd Ymwelwyr Dalfeydd yn cael cadarnhad ysgrifenedig eu bod wedi cwblhau'r cyfnod prawf o chwe mis yn llwyddiannus. Bydd penodiad pob Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol yn cael ei adnewyddu ar ôl tair blynedd. Fodd bynnag bydd rhaid ystyried gallu'r unigolyn i barhau â'r dyletswyddau a'i barodrwydd i gyflawni'r rôl yn

effeithiol wrth ystyried os dylid ei ailbenodi neu beidio. Ystyrir hefyd presenoldeb mewn cyfarfodydd, hyfforddiant a digwyddiadau eraill a drefnwyd.

3.8 Terfynu penodiad Ymwelwyr Dalfeydd

Er bod y gwaith yn hollol wirfoddol, mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yr hawl i derfynu penodiad unrhyw Ymwelydd Dalfeydd os nad yw ei gyfraniad, ymddygiad neu ei berfformiad yn cwrdd â'r safon ddisgwyliedig. Gall perfformiad gwael fod yn, er enghraifft, fethiant i drefnu ymweliad gyda'ch cydweithiwr, methu â mynychu ymweliadau neu gwblhau adroddiadau annigonol. Mae gan Ymwelydd Dalfeydd hawl i apelio yn erbyn penderfyniad y Prif Weithredwr fel y nodwyd yn y Drefn Apelio. (Atodiad C)

Mewn achos o gamymddygiad, bydd Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystyried a yw'n briodol terfynu penodiad yr Ymwelydd Dalfeydd dan sylw (Atodiad F). Gall camymddygiad gynnwys materion fel camddefnyddio'r cerdyn adnabod, euogfarn am drosedd, neu gamddefnyddio ei swydd fel Ymwelydd Dalfeydd.

Mae'n **RHAID** i Ymwelwyr Dalfeydd hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd os byddant yn cael eu harestio a'u cyhuddo o gyflawni trosedd. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn atal yr Ymwelydd Dalfeydd dan sylw rhag cael ei benodi hyd nes y ceir canlyniad unrhyw achos troseddol. Os ceir yr Ymwelydd Dalfeydd yn ddieuog, neu os caiff y cyhuddiadau eu gollwng, byddent yn cael ailafael yn eu dyletswyddau.

Os na fydd Ymwelydd Dalfeydd wedi cynnal ymweliad o fewn cyfnod o 4 mis, bydd y Prif Weithredwr yn ysgrifennu at yr ymwelydd dan sylw i weld os mai rhyw amryfusedd sydd i gyfrif am hyn (e.e. oherwydd na chyflwynwyd adroddiadau), neu i geisio cael eglurhad ar y sefyllfa.

Os na fydd Ymwelydd Dalfeydd wedi cynnal ymweliad o fewn cyfnod o 12 mis neu fwy, ac os na fydd Gweinyddwr y Cynllun wedi cael rheswm derbyniol dros hyn, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystyried terfynu penodiad yr unigolyn dan sylw.

Gall diffyg mynychu sesiynau hyfforddiant heb reswm teilwng arwain at derfynu eich cytundeb apwyntiad.

Bydd diffyg mynychu cyfarfodydd panel yn gyson heb reswm teilwng yn gallu arwain at derfynu eich cytundeb apwyntiad.

## 4. YMWELD Â DALFEYDD – Y TREFNIADAU

4.1 Nifer o Ymwelwyr Dalfeydd

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, mewn ymgynghoriad â'r Prif Gwnstabl, yn penodi digon o Ymwelwyr Dalfeydd i gynnal nifer briodol o ymweliadau dirybudd yn y dalfeydd ar hyd a lled Gogledd Cymru.

4.2 Ymweld mewn Parau

Mae'n rhaid i Ymwelwyr Dalfeydd ymweld mewn parau bob amser (yr unig eithriad i hyn yw ymweld i ddibenion hyfforddi). Ni fydd Ymwelydd Dalfeydd fydd yn mynychu dalfa ar ei ben / phen ei hun yn cael mynediad i gynnal ymweliad.
Ni ddylai'r Ymwelwyr Dalfeydd ddod ag unrhyw unigolyn heb awdurdod gyda nhw. Ni ellir ond cynnal ymweliadau â dalfeydd gydag Ymwelydd Dalfeydd achrededig arall. Bydd Gweinyddwr y Cynllun yn mynd gyda'r Ymwelwyr Dalfeydd o leiaf bob tair blynedd er mwyn sicrhau y cynhelir yr ymweliadau'n effeithiol.

4.3 Cydlynwyr

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn penodi un Ymwelydd Dalfeydd ym mhob un o'r tair ardal yng Ngogledd Cymru (Dwyrain, Canolog a'r Gorllewin) i fod yn Gydlynydd y cynllun (Atodiad D). Bydd Cydlynydd pob ardal yn gyfrifol am drefnu ymweliadau mewn parau, gan sicrhau bod yr Ymwelwyr Dalfeydd yn cynnal y nifer angenrheidiol o ymweliadau a'u bod yn ymweld â phob dalfa'r nifer angenrheidiol o weithiau. I'r pwrpas hwn, fe roddir rhifau ffôn yr Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol eraill i'r Cydlynydd.

Y Cydlynwyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr Ymwelwyr Dalfeydd yn ymweld â phob dalfa yn eu hardal berthnasol nhw ddigon o weithiau. O bryd i'w gilydd bydd y Cydlynwyr hefyd yn cynnal ymweliadau gyda phob un o'r Ymwelwyr Dalfeydd er mwyn monitro safonau.

4.4 Amlder ac Amseriad yr Ymweliadau â Dalfeydd

Bydd y Cydlynwyr Ardal a'r Ymwelwyr Dalfeydd yn cytuno rhyngddynt ar amlder ac amseriad yr ymweliadau a dylai hynny adlewyrchu'r nifer lleiaf/fwyaf o ymweliadau a argymhellir iddynt eu cynnal bob blwyddyn. Fodd bynnag, fel arfer fe ddisgwylir i'r Ymwelwyr Dalfeydd ymweld ag o leiaf 10 dalfa bob blwyddyn. Dylid gofalu nad yw'r ymweliadau yn cael eu cynnal mor aml, fel nad ydynt yn amharu ar effeithiolrwydd y gwaith o weinyddu'r ddalfa berthnasol neu ar waith gweithredol y swyddogion. Ond eto dylent gael eu cynnal yn ddigon aml i gwrdd ag amcanion y cynllun. Dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd gofio bod ymweliadau yn rhoi cyfrifoldeb annisgwyl ar ysgwyddau swyddogion y ddalfa, a dylent hefyd fod yn ymwybodol bod posibilrwydd o oedi pan fydd un sifft yn dod i ben ac un arall yn cychwyn.

Dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd gyrraedd yr orsaf heddlu heb rybudd ymlaen llaw, a dylent geisio osgoi cynnal ymweliadau ar adegau rheolaidd neu ar adegau y gellir eu rhagweld.

| **Y Ddalfa** | **Nifer lleiaf o ymweliadau yr argymhellir eu cynnal** | **Nifer fwyaf o ymweliadau yr argymhellir eu cynnal** |
|---|---|---|

| | pob blwyddyn | bob blwyddyn |
|---|---|---|
| Wrecsam (Dwyrain) | 40 | 45 |
| Llanelwy (Canolog) | 40 | 45 |
| Caernarfon (Gorllewin) | 36 | 40 |
| Yr Wyddgrug (Dwyrain) (allan o ddefnydd 2011) | Pob pythefnos pan yn weithredol | |
| Caergybi (Gorllewin) allan o ddefnydd 2012) | Pob pythefnos pan yn weithredol | |
| Dolgellau (Gorllewin) (allan o ddefnydd 2017) | Pob pythefnos pan yn weithredol | |

4.5 Mynychu'r Ddalfa

Dim ond Ymwelwyr Dalfeydd sy'n ymweld â'r ddalfa yn bersonol fydd yn cael sylw Swyddogion y Ddalfa. Ni atebir unrhyw ymholiadau dros y ffôn ynghylch y Ddalfa.

Er mwyn pwysleisio'r ffaith eu bod yn ddiduedd, ni ddylai'r Ymwelwyr Dalfeydd gyfuno ymweliad â dalfa ag unrhyw fusnes arall.

4.6 Ymweliadau ar gais yr Heddlu

Er dylai'r ymweliadau gael eu cynnal ar hap, efallai y bydd achosion pan fydd tensiwn arbennig yn y gymuned leol ynghylch lles neu driniaeth un neu fwy o unigolion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa. Mewn amgylchiadau o'r fath, efallai bydd y swyddog sydd ar ddyletswydd yn y Ddalfa dan sylw yn gwahodd Ymwelwyr Dalfeydd i fynychu'r ddalfa er mwyn lleddfu mythau a dileu unrhyw sibrydion. Y swyddog heddlu sy'n gofyn am yr ymweliad fydd yn gyfrifol am gysylltu â'r Cydlynydd Ardal a bydd yntau/hithau yn trefnu bod dau Ymwelydd yn cynnal yr ymweliad. Felly, i'r diben hwn, cedwir enwau a rhifau ffôn y Cydlynwyr Ardal, ac yn wir enwau'r holl Ymwelydd Dalfeydd, yn swyddfa'r ddalfa briodol. (Atodiad E)

Argymhellir bod swyddogion heddlu yn cysylltu â Gweinyddwr y Cynllun i ddweud bod cais am ymweliad wedi'i wneud.

4.8 Trefniadau Gweithio Effeithiol

Er mwyn i'r Cynllun fod yn effeithiol, mae'n hollbwysig fod gan yr Ymwelwyr Dalfeydd berthynas weithio broffesiynol gyda staff yr heddlu, yn seiliedig ar barch tuag at ei gilydd a dealltwriaeth o swyddogaeth gyfreithiol ei gilydd.
Ni ellir ond cael perthynas o'r fath os bydd y naill ochr a'r llall yn gwrtais ac yn rhoi ystyriaeth i'w gilydd.

Yn ogystal â chynnal perthynas waith broffesiynol gyda staff yr heddlu, dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd ddangos yr un ystyriaeth tuag at eu cyd Ymwelwyr. Felly, rhaid i'r holl Ymwelwyr Dalfeydd gefnogi a pharchu ei gilydd, gweithio fel tîm a chwarae rhan weithredol a chyfartal yn ystod yr ymweliadau.

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi Cod Moeseg sy'n berthnasol i bawb sy'n gweithio ac sy'n ymweld â Heddlu Gogledd Cymru.

Bydd materion yn berthnasol i drefniadau gweithio aneffeithiol yn cael eu cyfeirio at y Prif Weithredwr iddo eu hystyried, (gweler Atodiad F).

## 5. YMWELD Â DALFEYDD – Y DREFN

5.1 Ar ôl cyrraedd y Ddalfa

Pan fyddant yn cyrraedd y ddalfa, bydd rhaid i'r Ymwelwyr Dalfeydd ddangos eu cardiau adnabod i Swyddog neu Gynorthwyydd y Ddalfa a dylai yntau/hithau eu gadael i mewn i'r ddalfa ar unwaith. Nid oes unrhyw reswm dros oedi ar yr adeg hon.

Os nad oes staff yn y ddalfa, dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd defnyddio'r ffôn sydd y tu allan i'r ddalfa berthnasol a ffonio **101** er mwyn hysbysu Canolfan Gyfathrebiadau'r Heddlu pwy ydynt a phwrpas eu hymweliad â'r ddalfa. Dylent ofyn i gael siarad â swyddog yn y ddalfa er mwyn iddynt gael mynediad i gynnal ymweliad. Os na fydd yr alwad ffôn yn cael ei hateb ar ôl iddi gael ei throsglwyddo, dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd roi'r ffôn i lawr a ffonio'r Ganolfan Gyfathrebiadau eto mewn 5 munud. Gwneir hyn er mwyn cadarnhau nad oes staff yn y ddalfa ar y pryd.
Yna, gall yr Ymwelwyr Dalfeydd nodi hyn ar y ffurflen adrodd, a rhoi terfyn ar yr ymweliad.

5.2 Mynediad Di-oed i'r Ddalfa

Dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd gael mynediad i'r ddalfa **ar unwaith**. Os bydd oedi cyn iddynt gael mynediad, gallai effeithio ar hygrededd y cynllun ymweld â dalfeydd. Mae'n amhriodol i'r ymweliad gael ei ddal yn ôl oherwydd bod swyddog y ddalfa yn brysur. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd gael mynediad i'r ddalfa a chael cynnig aros hyd nes bydd swyddog y ddalfa, neu swyddog arall sydd wedi cael ei awdurdodi gan swyddog y ddalfa, ar gael i'w hebrwng o gwmpas y ddalfa. Argymhellir mai'r unig adeg y dylai bod unrhyw oedi cyn gadael i'r Ymwelwyr Dalfeydd gael mynediad i'r ddalfa ydi os gallai'r Ymwelwyr Dalfeydd fod mewn perygl – er enghraifft os oes rhyw gynnwrf neu helynt yn y ddalfa. Dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd gael eglurhad llawn pam fod oedi cyn eu gadael i mewn i'r ddalfa. Yna, dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd gynnwys yr eglurhad hwn yn eu hadroddiad a dylai swyddog y ddalfa gadarnhau bod hynny'n briodol.

5.3 Mynediad i'r Ddalfa ei hun

Bydd gan yr Ymwelwyr Dalfeydd hawl i archwilio pob rhan o'r ddalfa lle mae gan garcharor hawl i fynd i mewn iddo e.e. y celloedd, ystafelloedd dal, mannau cyhuddo, ceginau neu fannau paratoi bwyd a'r ystafell feddygol (fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys mynediad i gypyrddau cyffuriau cloëdig). Bydd yr Ymwelwyr Dalfeydd eisiau bodloni eu hunain bod y mannau hyn yn lân, yn dwt ac mewn cyflwr rhesymol, a bod y dillad gwely yn y celloedd, lle bo hynny'n briodol, yn lân ac yn ddigonol. Nid oes rhaid archwilio'r storfeydd. Ond dylai'r ymwelwyr sefydlu bod digon o fatresi a blancedi ar gael, bod trefniadau addas mewn lle ar gyfer glanhau eitemau o'r fath a bod y dodrefn a'r offer arall yn cael eu diweddaru'n rheolaidd. Dylai'r ymwelwyr hefyd sicrhau fod yno ddigon o fwyd a diod priodol ynghyd â defnyddiau crefyddol. Gofynnir i'r Ymwelwyr hefyd sicrhau bod y diffibrilwyr wedi cael eu gwirio gan Staff y Ddalfa. Gallent archwilio celloedd gwag ac ystafelloedd dal i wneud yn siŵr bod y systemau gwresogi/awyru, clychau'r celloedd ac offer tynnu dŵr y toiledau yn gweithio'n iawn. Gallent ymweld ag ystafelloedd cyfweld yn y ddalfa cyn belled nad ydynt yn cael eu defnyddio ar y pryd. Dylent wirio bod unrhyw systemau Teledu Cylch Cyfyng sydd wedi cael eu gosod i gadw golwg ar gelloedd unigol yn gweithio'n iawn. Nid oes gan Ymwelwyr Dalfeydd hawl i ymweld ag ystafelloedd CID nac unrhyw fannau gweithredol yn y ddalfa.

5.4 Delweddau TCC

Dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd gyflawni eu swyddogaethau yn bersonol ac nid trwy edrych ar luniau CCC byw neu ffilm wedi'i recordio. Mae'r rôl, yn ei hanfod, yn golygu bod angen iddynt ryngweithio â charcharorion a Swyddogion Dalfa'r heddlu ac ni ellir ei chyflawni o bell.

5.5 Diogelwch

Er mwyn sicrhau diogelwch Ymwelwyr Dalfeydd, bydd Swyddogion y Ddalfa yn aros gyda nhw trwy gydol yr ymweliad.

Yn ogystal â'r perygl o drais gan garcharorion, dylai Swyddogion y Ddalfa fod yn ymwybodol o beryglon iechyd a diogelwch penodol y gall Ymwelwyr Dalfeydd eu hwynebu, a'u cynghori mewn modd priodol. Er enghraifft, dylai Ymwelwyr Dalfeydd bob amser gael gwybod os oes posibilrwydd y byddant yn dod i gysylltiad â charcharorion neu gelloedd lle defnyddiwyd Sylwedd Analluogi Captor.

5.6 Mynediad i Garcharorion

Yn amodol ar baragraffau 5.9 a 5.13 isod, mae gan yr Ymwelwyr Dalfeydd hawl i weld unrhyw un sy'n cael ei gadw mewn dalfa.

Bydd y carcharorion yn syrthio i'r categorïau canlynol:

Carcharorion PACE
Dyma fydd y mwyafrif llethol, ac maent yn cael eu dal dan ddarpariaethau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984.

Carcharorion y Swyddfa Gartref
Carcharorion yw'r rhain sydd ar remand neu a ddedfrydwyd, a fyddai fel arfer mewn carchar.

Carcharorion Mewnfudo
Unigolion yw'r rhain sy'n cael eu dal dan Ddeddf Mewnfudo 1971 a Deddf Mewnfudo a Lloches 1999. Maent yn destun achos alltudio neu sy'n disgwyl i gael eu cludo o'r Deyrnas Unedig oherwydd eu bod wedi dod i mewn i'r wlad yn anghyfreithlon.

Unigolion mewn risg
Efallai bod yr unigolion hyn yn cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er eu lles eu hunain, neu'n blant a gymerwyd i warchodaeth yr heddlu dan Ddeddf Plant 1989.

Ymgyrch Safeguard
Mae Ymgyrch Safeguard yn ymwneud â chadw carcharorion o Garchardai Ei Mawrhydi mewn celloedd heddlu ar draws y Deyrnas Unedig. Ers i'r rheoliadau statudol sy'n berthnasol i Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol ddod i rym dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, nid yw Adran 51 Deddf na Pharagraff 2 Cod Ymarfer Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol yn gwahaniaethu o safbwynt statws y carcharorion (h.y. os ydynt yn cael eu dal dan PACE, pwerau terfysgaeth, pwerau mewnfudo ac ati). Felly dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol gael mynediad i garcharorion Ymgyrch Safeguard sy'n cael eu dal mewn dalfeydd neu orsafoedd heddlu, os nad yw'r eithriadau safonol yn gymwys.

Yn amlwg mae hawliau carcharorion Ymgyrch Safeguard yn wahanol i garcharorion eraill, felly dylai Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd sicrhau bod Ymwelwyr Dalfeydd yn ymwybodol o hawliau carcharorion Ymgyrch Safeguard. Fel gyda phob carcharor arall, dylid cyfeirio cwynion neu bryderon i sylw swyddog y ddalfa.

Gall yr Ymwelwyr Dalfeydd hefyd gael mynediad i garcharorion sydd ar remand neu sydd wedi cael eu dedfrydu i garchar sy'n cael eu cadw yng nghelloedd llysoedd yr ynadon. Fodd bynnag, nid oes ganddynt hawl i ymweld ag unigolion sy'n cael eu cadw yng nghelloedd yr ynadon sy'n disgwyl i'w hachos gael ei glywed yn y llys.

Dylai Rhingyll y Ddalfa roi gwybod i'r Ymwelwyr Dalfeydd os yw carcharor wedi cael ei chwistrellu â sylwedd analluogi Captor (gweler para 5.28 am fwy o fanylion).

5.7 Unigolion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa dan Adran 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983

Dylai Ymwelwyr Dalfeydd gael mynediad at unigolion a gedwir o dan A.136 Deddf Iechyd Meddwl 1983.

Mae diwygiadau iechyd meddwl yn cynnwys na all plant gael eu cadw mewn gorsafoedd heddlu na dalfeydd fel mannau diogel o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Mewn amgylchiadau eithriadol gall oedolion bregus gael eu cadw yn y ddalfa fel man diogel am 24 awr. Gellir ymestyn hyn 12 awr os na all yr unigolyn gael ei asesu am resymau clinigol.

Er ei fod o dan Ddeddf Plismona a Throseddau 2017 sy'n gwahardd defnyddio cadw Adran 136 yn y ddalfa oni bai fod amgylchiadau eithriadol, gellir defnyddio hwn os yw'r unigolyn wedi'i cyhuddo o dan PACE. Unwaith mae'r trosedd PACE wedi'i waredu, gellir gweithredu Adran 136.

5.8 Carcharorion - Cydsynio i Ymweliad

Nid oes raid i garcharorion gytuno i weld Ymwelwyr Dalfeydd nac ateb cwestiynau. Mae Cynllun Gogledd Cymru yn gynllun "hunan gyflwyno". Cyn i swyddog y ddalfa agor drws y gell, bydd yn sicrhau fod y carcharor yn dawel ac yn eistedd, ac ati.

Gwnaiff Swyddog y Ddalfa ddweud: "Mae dau o bobl annibynnol yma i'ch gweld. Gallent egluro pwy ydyn nhw. A ydych yn fodlon siarad â nhw?

Dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd ddefnyddio ffordd safonol o ofyn i garcharorion os ydynt yn dymuno cael eu gweld. Gan amlaf, dyma'r fformat:

**Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol 'da ni. 'Da ni yma i weld sut ydych chi'n cael eich trin gan yr Heddlu ac i gael golwg ar amodau eich carchariad. Gawn ni siarad â chi am ychydig o funudau?**

**Gawn ni hefyd weld eich cofnod dalfa ar gyfer y tro hwn?**

NODWCH: Er bod y geiriad safonol uchod yn rhan o'r Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol, mewn gwirionedd, dim ond canllaw ydyw. Cyn belled bo'r Ymwelwyr Dalfeydd yn fodlon eu bod wedi egluro eu rôl (gan roi pwyslais arbennig ar annibyniaeth Ymwelwyr Dalfeydd) i'r carcharorion mae hyn yn cael ei dderbyn fel dull rhesymol o ymdrin â'r mater.

Mae'n rhaid i'r Ymwelwyr gael hawl ar lafar cyn gellir cofnodi'r ymweliad ar y ffurflenni perthnasol, h.y. rhestr wirio. Mae'n rhaid hefyd cofnodi'r hawl ar lafar os yw'r carcharor yn cytuno i chi weld cofnod y ddalfa. Gall yr ymweliad barhau os yw'r carcharor yn cytuno.

Os yw'r carcharor yn gwrthod, mae'n rhaid i'r Ymwelwyr adael y gell. Mae hyn yn cael ei ystyried fel gwrthodiad hyd yn oed os yw'r Ymwelydd wedi siarad gyda'r carcharor.

Mae'n rhaid i'r Ymwelwyr ddilyn cyngor staff y ddalfa i beidio ymweld â charcharor os oes perygl o drais.

Gall swyddog y ddalfa fod allan o glyw'r Ymwelwyr Dalfeydd a'r carcharorion yn ystod yr ymweliad, ond rhai iddynt fod yn eu golwg drwy'r amser.

5.9 <u>Carcharorion sydd ddim yn gallu cydsynio i ymweliad</u>

Os bydd carcharor dan ddylanwad alcohol, cyffuriau, neu unrhyw sylwedd arall i'r fath raddau nad ydynt yn gallu rhoi caniatâd neu beidio, neu os nad yw, am ryw reswm arall, yn gallu dangos eu bod yn barod i gael eu gweld neu ddim, dylai'r swyddog hebrwng, os mai dyna yw dymuniad yr Ymwelydd Dalfeydd, ganiatáu mynediad. Gwneir hyn oni bai yr ystyrir y byddai hynny yn peryglu eu diogelwch. Os yw'r swyddog hebrwng o'r farn ei bod yn rhy beryglus i'r Ymwelwyr Dalfeydd fynd i mewn i'r gell, efallai y byddant yn dymuno siarad gyda'r carcharor trwy'r twll yn nrws y gell. Os yw'r carcharor yn anymwybodol, dylai'r swyddog hebrwng ganiatáu mynediad os yw'r Ymwelwyr Dalfeydd eisiau argyhoeddi eu hunain bod y carcharor yn iawn.

Os yw carcharor, am unrhyw reswm, yn methu penderfynu rhoi mynediad i'w gofnod dalfa, rhaid tybio ei fod o blaid gadael i Ymwelwyr Dalfeydd edrych arno. (Cod Ymarfer y Swyddfa Gartref).

5.10 <u>Carcharorion sy'n cysgu</u>

Os yw carcharorion yn cysgu, dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd benderfynu a ddylid eu deffro ai peidio er mwyn sefydlu os ydynt yn dymuno cael ymweliad ai peidio. Fodd bynnag, dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd gadw mewn cof y ddarpariaeth yng Nghod C Codau Ymarfer Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 1984 sy'n dweud y dylai carcharor sy'n rhan o ymchwiliad gael wyth awr ddi-dor o orffwys. Mewn amgylchiadau o'r fath, neu os gallai'r carcharor droi'n dreisgar, bydd y swyddog hebrwng yn dweud na ddylid tarfu ar y carcharor, ond bod modd edrych arno/i drwy'r twll yn nrws y gell. Os bydd yr Ymwelwyr Dalfeydd yn ystyried bod angen deffro carcharor, yna cyfrifoldeb y swyddog hebrwng yw gwneud hyn.

Ni ddylai pobl ifanc gael eu gosod mewn celloedd oni bai nad oes llety diogel ar gael a bod swyddog y ddalfa yn ei ystyried yn anymarferol i'w goruchwylio os nad ydynt mewn celloedd. Os cedwir unigolyn ifanc mewn cell, dylai Ymwelwyr Dalfeydd geisio eglurhad gan swyddog y ddalfa a gwirio fod hyn wedi'i gofnodi ar gofnod y ddalfa.

5.11 <u>Mynediad i Garcharorion Ifanc</u>

Gellir ymweld â charcharor ifanc os yw'r unigolyn hwnnw yn cydsynio i hynny. Nid oes rhaid cael caniatâd ychwanegol rhiant neu warcheidwad. Os oes Oedolyn Priodol yn bresennol i gefnogi'r carcharor ifanc neu'r unigolyn sy'n agored i niwed, dylid gofyn i'r carcharor am yr hyn yw eu dymuniad o ran caniatáu i'r Oedolyn Priodol fod yn bresennol yn ystod yr ymweliad. Dylid parchu'r dymuniad hwnnw.

Ni ddylid rhoi carcharor ifanc mewn cell oni bai nad oes unrhyw lety diogel arall ar gael a bod swyddog y ddalfa o'r farn nad oes modd ei oruchwylio heb ei roi mewn cell. Os cedwir unigolyn ifanc mewn cell, dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd ofyn am eglurhad gan swyddog y ddalfa a gwneud yn siŵr bod hyn wedi cael ei gofnodi yng nghofnod y ddalfa.

5.12 Oedolion Priodol

Ni cheith Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol weithredu fel oedolion priodol heblaw ar gyfer eu plentyn eu hunain neu oedolyn bregus, os ydynt yn berthynas, warcheidwad neu berson arall sy'n gyfrifol am eu gofal neu eu gwarchodaeth.

5.13 Carcharorion sy'n cael eu cyfweld

Os yw unigolyn yn cael ei gyfweld, ni ddylid torri ar draws y cyfweliad. Os dymuna'r Ymwelwyr Dalfeydd weld yr unigolyn dan sylw yn hwyrach ymlaen ar ôl i'r cyfweliad ddod i ben, fe gaiff, ond efallai y bydd raid iddynt aros i wneud hyn.

5.14 Cyfyngiadau ar Fynediad at y Rhai sydd yn y Ddalfa

Mewn amgylchiadau eithriadol efallai y bydd yr heddlu o'r farn bod angen peidio â chaniatáu i Ymwelwyr Dalfeydd weld rhywun sydd yn y ddalfa er mwyn osgoi unrhyw risg posibl o amharu ar ymchwiliad pwysig.

Dylai unrhyw benderfyniad i rwystro ymwelwyr rhag gweld rhywun yn y ddalfa gael ei gymryd gan swyddog ar reng arolygydd neu uwch a dylid cofnodi'r penderfyniad yng nghofnod y ddalfa. Dylid ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol wrth benderfynu gwrthod mynediad ymhob achos.

Ni ddylid rhagdybio y dylid gwrthod mynediad at unrhyw gategori o bobl a gedwir yn y ddalfa neu y dylid gwrthod oherwydd y gwnaed penderfyniad fod unigolyn i'w gadw heb allu cysylltu â neb.

Dylid rhoi eglurhad o'r rhesymau dros wrthod i'r Ymwelwyr Dalfeydd ar bob achlysur a'i gofnodi yng nghofnod y ddalfa, e.e. Deddf Terfysgaeth (carcharorion y Ddeddf Terfysgaeth).

5.15 Sgyrsiau rhwng Carcharorion ac Ymwelwyr Dalfeydd

Pan fo hynny'n ymarferol, bydd Swyddogion y Ddalfa allan o glyw yn ystod yr ymweliad, ond rhaid iddynt aros yng ngolwg yr Ymwelwyr Dalfeydd a'r carcharorion. Os, am ryw reswm, bydd yr heddlu'n penderfynu y dylai'r swyddog hebrwng aros o fewn clyw'r swyddog sydd ar ddyletswydd neu un o uwch swyddogion eraill y ddalfa ddylai wneud y penderfyniad hwnnw. Fodd bynnag, dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd gadw mewn cof y gall rhai carcharorion fod yn dreisgar neu gallent fod dan ddylanwad alcohol, cyffuriau neu sylweddau eraill ac y gallai presenoldeb y swyddog hebrwng atal unrhyw ymosodiadau ar yr Ymwelwyr Dalfeydd.

Mae'n rhaid i'r sgyrsiau ganolbwyntio ar gadarnhau os yw'r carcharorion wedi cael eu hawliau dan PACE.

Dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd hefyd fod yn effro i'r posibilrwydd y gallai drosglwyddo/ailadrodd gwybodaeth yn ddiarwybod o un carcharor i'r llall. Nid yw sgyrsiau rhwng Ymwelwyr Dalfeydd a charcharorion yn freintiedig ac mae gan yr

Ymwelwyr Dalfeydd gyfrifoldeb i ddadlennu/hysbysu unrhyw wybodaeth a roddir iddynt. Cyfrifoldeb yr Ymwelwyr Dalfeydd yw sicrhau bod y carcharorion yn ymwybodol y bydd unrhyw ddadleniad a wneir ganddynt yn ystod eu sgwrs yn cael ei hysbysu i swyddog y ddalfa.

Mae'n rhaid i'r Ymwelwyr Dalfeydd fod yn ddiduedd a pheidio â chyfrannu mewn unrhyw ffordd at y broses ymchwilio. Os yw carcharor am gyfaddef neu drafod troseddwr honedig, mae'n rhaid i'r Ymwelydd ddweud y bydd cynnwys perthnasol yr ymweliad o bosib yn cael ei ddadlennu mewn achos cyfreithiol.

Os yw'r carcharor yn dweud y byddai efallai yn niweidio ei hun neu rywun arall, mae'n rhaid dweud wrth staff y ddalfa ar unwaith.

5.16 Gwasanaeth Cyfieithu

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi llofnodi cytundeb â gwasanaeth cyfieithu. Mae'r cyfieithwyr wedi cael eu hyfforddi'n llawn ac mae ganddynt feistrolaeth dda ar yr iaith Saesneg a'r iaith y maent yn cyfieithu iddi/ohoni.

Os yw Ymwelwyr Dalfeydd yn dod ar draws carcharor sy'n methu siarad Saesneg, gwnânt ddefnyddio llyfryn cyfieithu gyda rhestr o gwestiynau yn yr ieithoedd a ddefnyddir fwyaf yng Ngogledd Cymru.

Os nad ydynt wedi gallu cyfathrebu gan ddefnyddio'r llyfryn cyfieithu, dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd egluro i'r swyddog hebrwng eu bod yn dymuno defnyddio gwasanaeth dehongli cytundebol yr Heddlu.

Os bydd yr Ymwelwyr Dalfeydd yn dod ar draws carcharor sydd ddim yn gallu siarad Saesneg, dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd egluro i swyddog y ddalfa eu bod yn dymuno defnyddio'r gwasanaeth cyfieithu.

Ar ôl cael gafael ar y cyfieithydd ar y ffôn, dylai'r Ymwelydd Dalfeydd egluro beth yw ei rôl a'r cwestiynau y mae ef / hi yn dymuno eu gofyn i'r carcharor. Yna, dylai'r ffôn gael ei basio yn ôl ac ymlaen rhwng yr Ymwelydd Dalfeydd a'r carcharor.

Bydd pob Ymwelydd Dalfa yn derbyn llyfryn cyfieithiadau gyda rhestr o gwestiynau yn ieithoedd mwyaf poblogaidd Gogledd Cymru gellid ei ddefnyddio i gyfathrebu â'r carcharorion.

5.17 Edrych ar Gofnod y Ddalfa

Os bydd unrhyw garcharor, gan gynnwys carcharor ifanc, yn gwrthod gadael i'r Ymwelwyr Dalfeydd weld cofnod y ddalfa, nid oes gan yr Ymwelwyr Dalfeydd hawl i'w weld. Os nad yw unigolyn yn gallu rhoi caniatâd oherwydd salwch meddwl neu anabledd, neu oherwydd eu bod yn anymwybodol neu yn analluog oherwydd cyffuriau, alcohol neu ryw sylwedd arall, mae'n rhaid i'r rhagdybiaeth fod o blaid gadael i'r Ymwelwyr Dalfeydd ei weld. Eithriad yw pan fydd carcharor yn gwrthwynebu. Bydd yr Ymwelwyr Dalfeydd yn cael gweld y rhannau hynny o gofnod

y ddalfa sy'n ymwneud â darpariaethau lles a'r agweddau hynny sydd wedi eu cynnwys yng Nghodau Ymarfer Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 1984 tra bo carcharor yn cael ei gadw yn y ddalfa gan yr heddlu.

5.18 Dogfennau

Mae cadw cofnodion cyfoes a chywir yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o weithredu'r rheolau parthed y driniaeth a gaiff unigolion sydd yn y ddalfa a'r broses oruchwylio. Felly, bydd yr Ymwelwyr Dalfeydd eisiau argyhoeddi eu hunain bod cofnod y ddalfa yn cofnodi'n llawn ac yn briodol y camau a gymerwyd mewn perthynas â charcharor tra roedd yn y ddalfa. Nid oes gan yr Ymwelwyr Dalfeydd hawl i weld dogfennau eraill ynglŷn â'r carcharor nac unrhyw gofnodion meddygol. Dylai cofnod y ddalfa gynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am unrhyw feddyginiaeth y mae'r carcharor ei angen a pha mor aml y dylid ei rhoi iddynt. Swyddogion y ddalfa sy'n gyfrifol am ofalu bod y feddyginiaeth yn cael ei rhoi ar yr adegau priodol.

Yn amodol ar gael caniatâd y carcharor i weld cofnod y ddalfa, dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd wirio ei gynnwys yn erbyn yr hyn y mae'r carcharor wedi'i ddweud wrthynt. Yn arbennig, bydd yr Ymwelwyr Dalfeydd yn dymuno cadarnhau:

- Os ydy'r carcharor wedi cael ei hawliau dan PACE ac wedi llofnodi amdanynt
- Bod unrhyw feddyginiaeth, anafiadau, archwiliadau meddygol, prydau / diet wedi cael eu cofnodi
- Bod y prosesau o safbwynt asesu risgiau / gwendidau arbennig carcharor wedi cael eu cofnodi'n briodol
- Amseriad a pha mor aml yr archwilir cell carcharorion meddw neu garcharorion sy'n agored i niwed mewn unrhyw ffordd arall
- Amseriad adolygiadau o'r angen i barhau i gadw carcharorion yn y ddalfa

5.19 Y Driniaeth a gaiff Carcharorion

Dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd fodloni eu hunain bod hawliau statudol carcharorion wedi cael eu hegluro iddynt a'u bod wedi cael hysbysiad ysgrifenedig o'r hawliau hynny. Dylent hefyd fodloni eu hunain bod carcharorion wedi derbyn y cyfleusterau y mae ganddynt hawl iddynt dan God C Codau Ymarfer PACE.

5.20 Cyflyrau Meddygol

Bydd yr Ymwelwyr Dalfeydd yn dymuno rhoi sylw arbennig i garcharorion sy'n dioddef salwch o unrhyw fath, anaf, anabledd corfforol neu ddysgu, neu gyflwr iechyd meddwl. Dylent fodloni eu hunain, lle bo hynny'n briodol, bod y ddalfa wedi galw am gymorth archwiliwr meddygol. Dylent gael gwybod gan swyddog y ddalfa pa gyfarwyddiadau a roddwyd ynglŷn â thriniaeth feddygol a chadarnhau, trwy edrych ar gofnod y ddalfa, os cafwyd y caniatâd angenrheidiol, y gweithredwyd ar y cyfarwyddiadau hynny. Gall yr Ymwelwyr Dalfeydd ymweld â charcharorion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa (ond nid unigolion a ryddhawyd o'r ddalfa) sydd yn yr ysbyty,

boed hynny dan wyliadwriaeth yr heddlu ai peidio, os bydd swyddog y ddalfa ac awdurdodau'r ysbyty yn cytuno i hynny. Rhag cael siwrnai seithug, efallai y byddai'n ddoeth cadarnhau gyda'r ysbyty os yw'r carcharor yn barod i siarad gyda'r Ymwelwyr Dalfeydd cyn mynd. Pan fo carcharor sydd yn yr ysbyty dan wyliadwriaeth yr heddlu, bydd y swyddog heddlu yn aros gyda'r carcharor bob amser. Ni ellir ond cael mynediad at gofnod y ddalfa os yw'r carcharor wedi rhoi ei ganiatâd yn y modd arferol.

5.21 Marwolaethau yn y Ddalfa

Yn dilyn pob achos o farwolaeth yn y ddalfa fe gynhelir cwest crwner ac ymchwiliad gan Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) a bydd yr heddlu yn cyflwyno adroddiad ffurfiol. Os ceir marwolaeth yn y ddalfa, bydd y Prif Arolygydd sy'n arwain ar faterion y ddalfa neu Arolygydd Polisi'r Ddalfa yn hysbysu Gweinyddwr y Cynllun gan roi pa wybodaeth bynnag y maent yn ei ystyried yn briodol. Bydd Gweinyddwr y Cynllun yn hysbysu Ymwelwyr Dalfeydd yr ardal berthnasol – o ran cwrteisi ac er gwybodaeth yn unig.

5.22 Cwynion gan Garcharorion

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng cwynion a wneir gan garcharorion am y driniaeth a gawsant yn gyffredinol neu am amodau eu carchariad a chwynion o gamymddygiad yn erbyn swyddog heddlu. Gall y cyntaf gynnwys cwynion megis na chafodd carcharor ei hysbysu o'i hawliau statudol neu na chafodd ei hawliau fel yn ôl Codau Ymarfer PACE. Mae'n amlwg bod cwynion o'r fath yn gwynion y dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd eu trafod gyda swyddog y ddalfa, neu gydag un o uwch swyddogion y ddalfa ar adeg yr ymweliad.

5.23 Cwynion o Gamymddygiad yn erbyn Swyddog Heddlu

Er mwyn iddynt barhau i fod yn gwbl ddiduedd, ni ddylai'r Ymwelwyr Dalfeydd fynd ar ôl achosion unigol na chyflwyno achos ar ran carcharorion.

Fodd bynnag, os bydd carcharor, yn ystod yr ymweliad, yn gwneud cwyn am gamymddygiad swyddog heddlu neu/a bod swyddog heddlu wedi ymosod arnynt bydd angen i'r Ymwelwyr Dalfeydd sefydlu os yw'r carcharor yn dymuno gwneud cwyn ffurfiol.

Os yw'r carcharor yn dymuno gwneud cwyn am gamymddygiad swyddog heddlu neu/a bod swyddog heddlu wedi ymosod arnynt, dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd gynghori'r carcharor yn y lle cyntaf y dylai ddwyn y mater i sylw'r Arolygydd sydd ar ddyletswydd. Dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd hefyd awgrymu efallai yr hoffai'r carcharor ystyried cael cyngor cyfreithiol cyn gwneud y gŵyn. Pan wneir cwyn o ymosodiad corfforol, dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd awgrymu bod y carcharor yn gofyn am gael gweld meddyg. (D.S. pan fydd yr Arolygydd sydd ar ddyletswydd yn derbyn cwyn ffurfiol, bydd yn trefnu i feddyg ddod i weld y carcharor beth bynnag).

5.24 Cwynion o Gamymddygiad yn erbyn Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol

Gweler Atodiad F am fanylion y drefn fydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ei dilyn os ceir cwyn o gamymddygiad yn erbyn Ymwelydd Dalfeydd.

5.25 Cwynion yn erbyn yr Heddlu

Os bydd Ymwelydd Dalfeydd yn gwneud cwyn yn erbyn yr heddlu sy’n cael ei chofnodi, a hynny fel Ymwelydd Dalfeydd neu fel unigolyn preifat, rhaid rhoi gwybod i Weinyddwr y Cynllun. Yna fe roddir y manylion llawn i’r Prif Weithredwr i benderfynu os dylid atal neu osod cyfyngiadau ar ddyletswyddau'r Ymwelydd Dalfeydd er lles didueddrwydd y Cynllun.

5.26 Gwasanaethau Hebrwng a Chadwraeth Carcharorion a Sylwebyddion y Ddalfa

Mae darpariaeth yn Neddf Cyfiawnder Troseddol 1991 ar gyfer contractio gwasanaeth hebrwng a chadwraeth y llysoedd allan. Mae Adran 81(1)(b) y Ddeddf yn nodi bod rhaid penodi panel o sylwedyddion ar gyfer y ddalfa i archwilio ac adrodd yn ôl i’r Ysgrifennydd Cartref ar waith y contractwr. Bydd Sylwedyddion y Ddalfa yn gyfrifol am archwilio cyflwr celloedd Llys y Goron a Llys yr Ynadon yn eu hardal berthnasol hwy. Yn ychwanegol at hyn, byddant yn archwilio amodau celloedd yr heddlu pan fydd y celloedd hynny yn cael eu defnyddio i gadw carcharorion sydd ar remand a charcharorion sydd wedi cael eu dedfrydu yng ngofal y contractwr. Byddant hefyd yn archwilio’r amodau y mae carcharorion sydd ar remand a charcharorion sydd wedi cael eu dedfrydu yn cael eu cludo a bydd ganddynt fynediad at y carcharorion er mwyn iddynt allu cyflawni'r archwiliad hwnnw.

Yn ymarferol, bydd yr Ymwelwyr Dalfeydd yn parhau i gael mynediad bob amser at:

- Holl garcharorion PACE
- Unigolion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa dan reolau mewnfudo
- Unigolion sy’n cael eu cadw yn y ddalfa dan A. 136 Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Carcharorion sydd ar remand a charcharorion sydd wedi'u dedfrydu (NAD YDYNT yng ngofal y contractwr)
- Pob rhan o’r ddalfa lle mae’r carcharorion yn cael eu cadw (ac eithrio ystafelloedd cyfweld ac ystafelloedd meddygol pan fyddant yn cael eu defnyddio)
- Yn ychwanegol at hyn, bydd gan yr Ymwelwyr Dalfeydd hawl i gael mynediad at garcharorion sydd ar remand a charcharorion sydd wedi'u dedfrydu sydd yng ngofal y contractwr mewn dalfa unwaith bydd swyddog y ddalfa yn gyfrifol amdanynt.

5.27 Carcharorion sydd ar Remand a Charcharorion sydd wedi’u Dedfrydu

Cedwir y carcharorion hyn dan Orchymyn Gwasanaeth Carchardai 1801 (PSO 1801) ac mae angen i’r Ymwelwyr Dalfeydd gynnal lefel uwch o gyfrinachedd pan fyddant

yn cynnal ymweliadau dan y gorchymyn hwn. Mae'n rhaid i'r Ymwelwyr Dalfeydd gytuno i beidio dadlennu enwau'r unigolion a welwyd na'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr ymweliad. Nid oes unrhyw angen i'r Ymwelwyr Dalfeydd gael gwybod pam fod unigolion yn cael eu cadw yn y ddalfa. Mewn achosion o'r fath mae'n rhaid i'r Ymwelwyr Dalfeydd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r hawliau a roddwyd iddynt gan y Llywodraethwr a gofynion cyffredinol PACE Cod C, Adrannau 8 a 9.

Fodd bynnag, mae yna gategorïau o garcharorion sy'n cael eu dal dan PSO 1810. Mae'n cynorthwyo'r heddlu gyda'i ymholiadau ac sydd felly yn dymuno cadw eu henwau ynghyd â'r ffaith eu bod yn cynorthwyo'r heddlu yn gyfrinachol, a chyfyngu'r nifer o unigolion sy'n gwybod am hyn. Felly bydd Llywodraethwr Cyfarwyddwyr y Sefydliadau Wedi Contractio Allan yn hysbysu'r carcharor ynghylch ei hawl i dderbyn ymweliad gan Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol. Os bydd y carcharor yn dymuno i'r Ymwelwyr Dalfeydd ymweld â nhw, fe hysbysir Prif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a bydd Ymwelwyr Dalfeydd sydd wedi'u fetio'n briodol yn cael eu penodi i gynnal yr ymweliad. Bydd cynnwys adroddiad yr Ymwelwyr Dalfeydd yn cael ei drin yn gyfrinachol ac yn cael ei drosglwyddo i Brif Weithredwr Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Dylid cynghori carcharorion sydd ar remand a charcharorion sydd wedi'u dedfrydu sy'n ceisio cwyno am amodau eu carchariad neu'r driniaeth a gawsant yno na all Ymwelwyr Dalfeydd ymglymu eu hunain â materion o'r fath. Fe'u cynghorir fod yna gamau cydnabyddedig ar gael iddynt megis ysgrifennu at neu ddeisebu'r Ysgrifennydd Cartref, neu ysgrifennu at eu cyfreithiwr neu'r Aelod Seneddol.

Mae gan gontractwyr sy'n gweithio i wasanaethau hebrwng y llys hefyd eu gweithdrefnau eu hunain o ran cofnodi cwynion ynghylch eu staff. Bydd unrhyw gŵyn sy'n honni bod trosedd wedi'i gyflawni yn cael ei hysbysu i'r heddlu ac i Wasanaeth Monitro Carchardai Ei Mawrhydi ar unwaith.

Cyfeirir unrhyw gŵyn a wneir i'r contractwr sydd gyfystyr â chwyn heddlu, at yr heddlu i'w ymchwilio fel ag a wneir ar hyn o bryd.

5.28 Carcharorion sydd wedi cael eu chwistrellu â sylwedd analluogi Captor

Mae'n bosib y bydd Ymwelwyr Dalfeydd yn dod ar draws carcharorion sydd wedi cael eu chwistrellu â sylwedd Captor adeg eu harést pan fyddant yn cynnal eu hymweliadau. Efallai bydd yr Ymwelwyr Dalfeydd yn dymuno sicrhau iechyd a lles unigolion o'r fath ond dylent gadw mewn cof y cyngor sydd wedi'i gynnwys yn Atodiad G y Canllawiau hyn. Os ydy'r Ymwelwyr Dalfeydd yn credu bod y carcharor yn dioddef oherwydd sgîl-effeithiau Analluogwr Captor, dylent ddwyn hyn i sylw Rhingyll y Ddalfa sy'n gyfrifol am gael cymorth meddygol.

## 6. DIDUEDDRWYDD A CHYFRINACHEDD

6.1 Cyngor

Ni ddylai'r Ymwelwyr Dalfeydd ymglymu eu hunain gydag achosion unigol i'r graddau eu bod yn cynnig cyngor ynghylch os dylai carcharorion wneud datganiad

neu gydweithio mewn rhyw fodd arall gydag ymholiadau’r heddlu. Byddai rhoi cyngor o’r fath yn anghyson ag annibyniaeth Ymwelwyr Dalfeydd o’r prosesau ymchwilio. Felly, dylai’r Ymwelwyr Dalfeydd gyfyngu'r hyn y maent yn ei drafod i'r amodau y mae unigolion yn cael cadw oddi tanynt a'r driniaeth maent yn ei chael. Bydd rhai unigolion fodd bynnag, yn naturiol ddigon, eisiau gofyn am gyngor ynghylch eu hamddiffyniad posibl, yn enwedig os nad ydynt eisoes wedi cael cyngor cyfreithiol. Er mwyn cynnal didueddrwydd y Cynllun, ni ddylai’r Ymwelwyr Dalfeydd ymweld â ffrindiau neu berthynas sy’n cael eu cadw yn y ddalfa.

Os digwydd i Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol ddod ar draws rhywun mae’n ei adnabod, rhaid penderfynu os dylid terfynu'r ymweliad.

6.2 Cysylltiad gydag Unigolion oddi allan i’r Ddalfa

Ni ddylai’r Ymwelwyr Dalfeydd gytuno i gysylltu ag unrhyw un oddi allan i’r ddalfa ar gais carcharor. Ni ddylent ychwaith gytuno i basio neges ymlaen i unrhyw garcharor arall yn y ddalfa, na chynnig gwneud unrhyw dasg arall ar eu rhan, a rhaid iddynt hysbysu swyddog y ddalfa ar unwaith ynghylch unrhyw gais o'r fath.

6.3 Ymwelwyr Dalfeydd yn rhoi tystiolaeth mewn Achos Troseddol

Nid yw sgyrsiau rhwng Ymwelwyr Dalfeydd a charcharorion yn freintiedig. Mae rhyddid gan y llys i gyflwyno gwŷs tystio sy’n mynnu bod Ymwelwyr Dalfeydd yn mynychu’r llys i roi tystiolaeth lafar neu i gyflwyno dogfennau megis adroddiad ar unrhyw ymweliad penodol â dalfa. Nid oes raid i’r Ymwelwyr Dalfeydd roi tystiolaeth na chyflwyno dogfennau oni bai mewn ymateb i Orchymyn Llys, ond mae’n rhaid iddynt ymateb i Orchymyn o'r fath.

6.4 Cyfrinachedd

Bydd yr Ymwelwyr Dalfeydd yn casglu cryn dipyn o wybodaeth bersonol am unigolion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa.

Ni fydd y mwyafrif helaeth ohonynt eto wedi ymddangos gerbron llys, ac ni fydd llawer ohonynt fyth yn ymddangos gerbron llys. Rhaid diogelu gwybodaeth bersonol ynglŷn â charcharorion rhag ei dadlennu’n amhriodol neu'n ddiangen. Felly, gofynnir i’r Ymwelwyr Dalfeydd ymrwymo (ymrwymiad wedi'i gynnwys ar ffurflen adroddiad yr ymweliad â’r ddalfa) i beidio â rhyddhau enw unrhyw un sy'n cael ei gadw yn y ddalfa. Ni ryddheir chwaith unrhyw wybodaeth fyddai'n arwain at adnabod unrhyw un sy'n cael ei gadw yn y ddalfa (ac eithrio pan fo ymweliad wedi’i drefnu mewn perthynas â thriniaeth unigolyn penodol). Byddai'n ddymunol, er lles egwyddorion llym cyfrinachedd, pe na bai’r Ymwelwyr Dalfeydd yn enwi, nac yn dadlennu mewn rhyw ffordd arall, wybodaeth am unigolion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa. Ni wneir hyd yn oed mewn adroddiadau neu mewn trafodaethau gydag Ymwelwyr Dalfeydd eraill neu gyda Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Nid ddylai staff y ddalfa ddadlennu manylion trosedd neu unrhyw wybodaeth ynghylch pam mae unigolyn wedi’i gadw yn y ddalfa i’r ymwelwyr dalfeydd.

6.5 Torri Cyfrinachedd

Gallai torri'r ymrwymiad hwn wneud Ymwelwyr Dalfeydd yn agored i achos sifil yn eu herbyn gan y carcharor dan sylw. Dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd hefyd fod yn ymwybodol y gallai dadlennu ffeithiau ynglŷn â gweithgareddau'r heddlu neu ddiogelwch dalfeydd heb ganiatâd fod yn drosedd dan Adran 5 Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989.

## 7. ADRODDIADAU'R YMWELWYR DALFEYDD A CHAMAU DILYNOL

7.1 Cwblhau Adroddiadau Dalfeydd

Bydd y ddau Ymwelydd Dalfeydd yn cyflwyno adroddiad ar y cyd ar y ffurflen a ddarparwyd. Anfonir copi uchaf (gwyn) adroddiad yr Ymwelwyr Dalfeydd i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn yr amlen ragdal a ddarperir. Dylai'r ddau Ymwelydd Dalfeydd lofnodi'r ffurflen ynghyd â swyddog y ddalfa. Dylid gadael y copi pinc a'r copi melyn yn y ddalfa a bydd y copi pinc yn cael ei gadw yno er gwybodaeth ar gyfer ymweliadau dilynol. Tynnir sylw Arolygydd Materion y Ddalfa, Dalfa Llanelwy at gopi melyn yr adroddiad, er mwyn i unrhyw gamau angenrheidiol gael eu cymryd mewn perthynas â'r sylwadau a wnaed gan yr Ymwelwyr Dalfeydd.

7.2 Adroddiadau ynghylch Triniaeth neu Amodau Anfoddhaol

Os bydd yr Ymwelwyr Dalfeydd yn canfod bod unrhyw ran o'r driniaeth a gafodd carcharorion neu amodau'r ddalfa yn anfoddhaol, dylid eu cynnwys yn yr adroddiad a'u dwyn i sylw swyddog y ddalfa ar y pryd. Dylid dwyn sylwadau o'r fath i sylw'r Arolygydd Dalfa priodol yn syth. Dylid gwneud hyn, er enghraifft, os bydd carcharor yn gwneud cwyn ynghylch ymosodiad neu driniaeth annheg, neu os yw'n ymddangos fel pe bai wedi cael anaf sydd heb ei gofnodi ar gofnod y ddalfa. Dylid hefyd gofnodi ar y ffurflen unrhyw gamau a gymerwyd gan swyddog y ddalfa adeg yr ymweliad.

7.3 Dylai swyddog y ddalfa godi'r mater yn ystod yr ymweliad er mwyn i'r camddealltwriaeth gael ei ddatrys yn syth os na fydd swyddog y ddalfa yn cytuno gyda'r sylwadau a nodwyd ar y ffurflen hysbysu ynghylch unrhyw driniaeth ac amodau annheg. Ar adegau prysur iawn yn y ddalfa dylid cyflwyno unrhyw sylwadau eraill yn ysgrifenedig a'u hanfon at Arolygydd y Ddalfa a Gweinyddwr y Cynllun o fewn **24 awr** i'r ymweliad gael ei gynnal.

7.3 Adroddiadau ar Ymddygiad yn ystod yr Ymweliad

Dylid cynnwys manylion unrhyw faterion sy'n codi ynghylch ymddygiad aelod o Staff y Ddalfa yn yr adroddiad a'u dwyn i sylw'r Arolygydd Dalfa priodol fel mater o frys.

7.3 Adroddiadau ar Faterion sy'n Codi yn sgìl Ymweliadau â Dalfeydd

Bydd Gweinyddwr y Cynllun yn galw cyfarfodydd o'r Ymwelwyr Dalfeydd yn rheolaidd. Bydd hyn yn hwyluso'r gwaith o drafod trefniadau ymweld yr ardal ac unrhyw faterion sydd angen eu dwyn i sylw Arolygydd Polisi'r Ddalfa. Bydd materion

sy'n dod i'r amlwg yn ystod yr ymweliadau hefyd yn cael eu dwyn i sylw Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

## 8 MONITRO'R CYNLLUN

Y Prif Weithredwr fydd yn gyfrifol am fonitro'r cynllun.

Os bydd unrhyw anawsterau yn codi yn ystod ymweliad, dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd neu swyddog y ddalfa, fel sy'n briodol, eu dwyn i sylw Gweinyddwr y Cynllun. Gweler Atodiad E am y manylion cyswllt.

## 9 GWYBODAETH YCHWANEGOL

### 9.1 Treuliau

Mae'r gwaith yn gwbl wirfoddol, ond telir treuliau i bob Ymwelydd Dalfeydd yn unol â'r hyn sydd wedi'i nodi ym Mholisi Costau Teithio a Chynhaliaeth y Cynllun (Atodiad I). Dim ond costau cludiant cyhoeddus neu gostau car preifat ar y gyfradd a gytunwyd fydd yn cael eu talu. Ni ellir ond hawlio ffioedd tacsi yn ôl pan fyddwch yn mynychu digwyddiadau fydd wedi cael eu cymeradwyo gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Efallai y telir treuliau rhesymol eraill ar ddisgresiwn y Prif Weithredwr. Rhaid gwneud unrhyw hawliadau drwy DutySheet. Mae'n rhaid i'r Ymwelwyr Dalfeydd sy'n defnyddio eu cerbydau eu hunain i deithio i ac o ymweliadau ac unrhyw gyfarfodydd cysylltiedig hysbysu eu cwmni yswiriant o'u dyletswyddau.

Anogir yr ymwelwyr i rannu ceir pa bryd bynnag y bydd hynny'n bosibl.

### 9.2 Yswiriant

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi trefnu yswiriant priodol ar gyfer Ymwelwyr Dalfeydd fydd yn eu diogelu pan fyddant yn ymweld â dalfa.

### 9.3 Brechiadau

Cynghorir yr Ymwelwyr Dalfeydd i gael brechiad yn erbyn Hepatitis B a Thetanws. Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn talu am unrhyw imiwneiddio unwaith y byddant wedi derbyn copi o'r bil a dalwyd.

### 9.4 Canllawiau

Bydd copi o'r Canllawiau hyn yn cael ei roi ym mhob dalfa "ddynodedig" yng Ngogledd Cymru er gwybodaeth i staff y ddalfa. Gwneir hefyd er mwyn i'r Ymwelwyr Dalfeydd a swyddogion heddlu fel ei gilydd allu cyfeirio atynt fel bo angen.

### 9.5 Dinistrio Dogfennau

Pan fydd eu cytundeb yn dod i ben mae'n rhaid i'r Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol sicrhau bod unrhyw ddogfennau sy'n berthnasol i'r rôl yn cael eu dychwelyd i Weinyddwr y Cynllun.

9.6 Cyfleoedd Cyfartal ac Amrywiaeth

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi llwyr ymroi i gydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob maes gwaith.

Rydym yn credu bod gennym lawer i'w ddysgu gan ddiwylliannau a barnau amrywiol, a bydd amrywiaeth yn gwneud y sefydliad yn fwy effeithiol o safbwynt diwallu anghenion y cyhoedd. Rydym wedi ymroi i ddatblygu a chynnal corff sy'n meithrin ac yn gwerthfawrogi syniadau, galluoedd a chefndiroedd gwahanol, lle gall yr unigolion hynny sydd â chefndiroedd a phrofiadau amrywiol gyfrannu a chymryd rhan. Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gwerthuso ac yn monitro ei gynnydd o safbwynt amrywiaeth yn rheolaidd.

## 10 CANLLAWIAU CYHOEDDUSRWYDD

10.1 Cyffredinol

At ei gilydd, mae hysbysebu rôl ac amcanion y cynllun yn gyhoeddus yn rhywbeth i'w annog. Fodd bynnag, dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd gofio mai nod cyhoeddusrwydd yw rhoi gwybod i'r cyhoedd am y cynllun ac nid tynnu sylw at achosion unigol neu dynnu sylw atynt eu hunain. Ni ddylai'r Ymwelwyr Dalfeydd drafod achosion unigolion y maent yn dod i gysylltiad â nhw yn ystod eu hymweliadau â'r dalfeydd. Ni ddylent, o dan unrhyw amgylchiadau, drafod unigolion neu ddigwyddiadau penodol, oni bai mewn ffordd gyffredinol a dienw er mwyn cefnogi unrhyw eglurhad ar ddibenion y cynllun. Dylid cyfeirio unrhyw wahoddiad i siarad â'r wasg, grwpiau neu sefydliadau lleol ynghylch unrhyw agwedd ar ymweld â dalfeydd i sylw Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Ni ddylai unrhyw Ymwelydd Dalfeydd unigol ymgymryd â hyn ond ar gais Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a fydd, dan amgylchiadau arferol, wedi ymgynghori â'r Prif Gwnstabl.

Dylai'r Ymwelwyr Dalfeydd gofio eu bod yn atebol i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac nid i'r wasg nac i aelodau unigol o'r cyhoedd.

10.2 Cyfrinachedd

Darperir enwau a rhifau ffôn yr Ymwelwyr Dalfeydd yn hollol gyfrinachol gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd er hwylustod cysylltu yn unig. Ni ddylid dadlennu manylion o'r fath i unrhyw un arall.

Tynnir eich sylw hefyd at baragraffau 6.4 a 6.5 mewn perthynas â chyfrinachedd wrth gyflawni eich dyletswyddau fel Ymwelydd Dalfeydd.

## SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## MANYLEB YR UNIGOLYN

**Meini Prawf Hanfodol**

1. Rhaid bod yn o leiaf 18 mlwydd oed (adeg penodi)

2. Mae'n rhaid byw neu weithio yn ardal Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

3. Rhaid dangos fod gennych ddigon o amser a hyblygrwydd i gyflawni rôl ymwelydd dalfeydd

4. Rhaid gweithio gyda chydweithwyr fel rhan o dîm er mwyn diwallu rhaglen ymweld â dalfeydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

5. Rhaid gallu cyfathrebu'n dda yn llafar ac yn ysgrifenedig

6. Rhaid gallu cyfathrebu'n effeithiol gydag unigolion o amrywiaeth o gefndiroedd yn unol â gofynion cyfleoedd cyfartal

7. Rhaid dangos fod gennych farn annibynnol a diduedd o safbwynt pawb sy'n gysylltiedig â'r broses ymweld â dalfeydd

8. Y gallu i gynnal cyfrinachedd

**Meini Prawf Dymunol**

1. Ychydig o wybodaeth am y Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol

2. Y gallu i lenwi ffurflenni'n glir ac yn gryno

3. Y gallu i symud o gwmpas yn rhwydd er mwyn cynnal ymweliadau

## SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## SWYDD DDISGRIFIAD

**Rôl:** Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol

**Pwrpas Cyffredinol y Rôl:** Monitro lles carcharorion ac amodau eu carchariad.

**Dyletswyddau a Chyfrifoldebau:**

1. Ymweld â dalfeydd gyda chyd-ymwelwyr dalfeydd yn unol â Chanllawiau'r Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol.

2. Hysbysu Gweinyddwr y Cynllun o unrhyw broblemau sy’n deillio o ymweliadau â dalfeydd.

3. Cynnal ymweliadau dalfeydd yn unol â Chanllawiau'r Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol a’r hyfforddiant a gafwyd.

4. Gwirio amodau carchariad carcharor, ei iechyd, lles a’i hawliau cyfreithiol, yn unol â Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol, Cod C.

5. Pan fydd yn briodol, edrych ar gofnod dalfa’r carcharor er mwyn sicrhau ei fod yn gywir a gwirio unrhyw bryderon a godwyd gan y carcharor.

6. Trafod gyda Swyddog y Ddalfa unrhyw bryderon a cheisiadau sy’n deillio o’r ymweliad â’r ddalfa a dwyn sylw Swyddog y Ddalfa i unrhyw faterion sydd angen sylw.

7. Cwblhau Adroddiad Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol gan sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chofnodi’n gywir, yn eglur ac yn gryno.

8. Dosrannu copïau o Adroddiad yr Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol i’r unigolion priodol.

9. Cwblhau a chyflwyno ceisiadau am dreuliau yn unol â Chanllawiau'r Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol.

10. Mynychu sesiynau hyfforddi parhaus fel sy’n briodol.

11. Mynychu cyfarfodydd sy’n berthnasol i Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol.

12. Cyflawni dyletswyddau Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol gan ystyried gofynion Iechyd a Diogelwch y Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol.

13. Cyflawni dyletswyddau Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol yn unol â Chanllawiau'r Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol.

## SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## MEMORANDWM O DDEALLTWRIAETH

Bydd y Memorandwm o Ddealltwriaeth hwn, ar y cyd â Chanllawiau'r Cynllun Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol y byddwch hefyd yn eu cael, yn sail i gytundeb rhyngoch chi a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae'r ddogfen hon yn tynnu sylw at yr hyn y mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ei ddisgwyl gan Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol, a'r hyn y gall yr Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol ei ddisgwyl gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

### 1 CARDIAU ADNABOD

Bydd eich cerdyn adnabod Ymwelwyr Dalfeydd yn ddilys am gyfnod cyfan eich penodiad.

Er bod y cerdyn adnabod, mewn egwyddor, yn rhoi hawl i chi ymweld ag unrhyw Ddalfa yng Ngogledd Cymru, yn ymarferol cyfyngir eich ymweliadau i'ch ardal ddynodedig, naill ai'r Ardal Ddwyreiniol, Canolog neu Orllewinol. Dim ond trwy wneud trefniadau gyda Chydlynydd yr Ardal, neu ar gais penodol Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd neu Heddlu Gogledd Cymru y dylid ymweld â dalfa mewn ardal arall.

Dim ond i'r diben o ymweld â dalfeydd y dylid defnyddio'r cerdyn adnabod. Os defnyddir y cerdyn i unrhyw ddiben arall, cymerir ef oddi arnoch ac efallai y bydd eich penodiad fel Ymwelydd Dalfeydd yn cael ei derfynu. Rhaid defnyddio'r cerdyn adnabod ar bob ymweliad a dim ond ar ôl dangos y cerdyn y cewch fynediad i'r ddalfa.

Pan fyddwch yn rhoi'r gorau i fod yn Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol bydd rhaid i chi ildio'r cerdyn adnabod a rhoi'r holl ddogfennau sydd gennych sy'n ymwneud â'r cynllun i Weinyddwr y Cynllun.

### 2 CYFNOD PRAWF

Ar ôl i chi gael eich penodi bydd rhaid i chi gwblhau cyfnod prawf o chwe mis. Yn ystod y cyfnod prawf bydd Gweinyddwr y Cynllun yn cadw golwg ar y nifer o ymweliadau y byddwch yn eu cynnal ac fe drafodir gyda chi unrhyw beth sy'n peri pryder i chi.

Byddwn yn ysgrifennu atoch i gadarnhau eich bod wedi cwblhau'r cyfnod prawf o chwe mis yn llwyddiannus.

## 3 YMWELD Â DALFEYDD MEWN PARAU

Mae'n rhaid i chi ymweld â'r dalfeydd mewn parau bob amser. Nid oes unrhyw eithriad i'r rheol hon, ac mae staff y dalfeydd wedi cael cyfarwyddyd i beidio â chaniatáu mynediad i ymwelwyr sydd ar eu pen eu hunain. Ni chewch ymweld â dalfa oni bai eich bod gydag Ymwelydd Dalfeydd achrededig arall.

Ni ddylai mwy na dau unigolyn ymweld â dalfa gyda'i gilydd (oni bai at ddibenion hyfforddi).

## 4 NIFER O YMWELIADAU

Bydd disgwyl i chi gynnal o leiaf 10 ymweliad y flwyddyn, ond os bydd amgylchiadau eithriadol yn eich atal rhag gwneud hynny, dylech sicrhau fod Gweinyddwr y Cynllun yn gwybod amdanynt.

## 5 NEWID MEWN AMGYLCHIADAU

Mae'n rhaid i chi ddweud wrth Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd os bydd unrhyw newid yn eich amgylchiadau fydd yn effeithio ar eich gwaith fel Ymwelydd Dalfeydd e.e.

Newid priod neu bartner, newid ym manylion cydbreswylydd, newid cyfeiriad, anawsterau ariannol, h.y. methdaliad, Dyfarniad Llys Sirol anffafriol, cytuno i Drefniant Gwirfoddol Unigol (IVA), os cewch eich arestio neu eich galw i ymddangos gerbron Llys fel diffynnydd, os cewch eich cyhuddo o drosedd neu eich rhybuddio, os ydych yn gysylltiedig neu eich bod wedi'ch cyhuddo o fod yn gysylltiedig ag ymchwiliad troseddol, os ydych wedi cael hysbysiad cosb benodol, os oes gennych gysylltiad ag unigolyn sy'n droseddwr neu sydd dan amheuaeth o fod yn droseddwr, newidiadau perthnasol yn eich cyflwr meddygol (er mwyn hysbysu'r Uned Iechyd Galwedigaethol), neu faterion perthnasol eraill. Dylech hefyd riportio gwaith neu swyddi newydd, os penodir chi yn ynad, oedolyn priodol, swyddog gwirfoddol, swyddog heddlu, swyddog prawf, neu os byddwch yn cytuno i wneud unrhyw waith arall a allai arwain at wrthdaro mewn buddiannau.

Mae'n rhaid i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd hysbysu'r Swyddog Fetio o unrhyw newid yn eich amgylchiadau sy'n peri pryder. Gall newid mewn amgylchiadau arwain at derfynu eich cliriad fetio ac at derfynu eich cyflogaeth.

**Gallai methu â'n hysbysu o newidiadau perthnasol i'ch amgylchiadau hefyd arwain at derfynu eich cliriad fetio.**

Os cewch eich penodi am gyfnod pellach, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cynnal gwiriadau ychwanegol mewn perthynas â'ch penodiad fel Ymwelydd Dalfeydd.

## 6 HYFFORDDIANT

Yn ychwanegol at eich hyfforddiant cychwynnol, bydd rhaid i chi ymweld â dalfa. Fel rhan o'ch hyfforddiant, a chyn i chi ddechrau ar eich rôl fel Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol, bydd rhaid i chi fynd ar ddau ymweliad gydag Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol profiadol.

Bydd disgwyl i chi hefyd fynychu sesiynau hyfforddi eraill, cynadleddau ayyb ar gais Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Os byddwch yn methu hyfforddiant yn gyson heb reswm da mae'n bosib y bydd eich cytundeb yn cael ei derfynu.

## 7 DIDUEDDRWYDD A CHYFRINACHEDD

Ni ddylech gael eich tynnu i mewn i achosion unigol na rhoi cyngor i'r carcharorion. Dylech gadw cyfrinachedd manylion personol carcharorion ac Ymwelwyr Dalfeydd eraill.

Gallai torri'r ymrwymiad hwn wneud Ymwelwyr Dalfeydd yn agored i achos sifil yn eu herbyn gan y carcharor dan sylw.

Os byddwch yn methu cyfarfodydd y panel yn gyson heb reswm da mae'n bosib y bydd eich cytundeb yn cael ei derfynu.

## 8 DOGFENNAU

Bydd rhaid i chi gwblhau adroddiad bob tro y byddwch yn ymweld â dalfa (hyd yn oed os nad oedd unrhyw un yn y ddalfa) a chyflwyno'r adroddiad i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd heb oedi.

Dylai pob dogfen gael eu dychwelyd i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a fydd yn cael eu prosesu yn unol â'u Polisi Cadw a Dinistrio.

## 9 DIOGELU DATA

Gofynnir i chi roi gwasanaeth cyfrinachol a thriw i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Gall hyn gynnwys cymryd gofal wrth drin gwybodaeth y byddwch yn dod ar ei draws yn eich dyletswyddau swyddogol a diogelu gwybodaeth sy'n cael ei gadw'n gyfrinachol. Rydych yn atebol i Ddeddfau Cyfrinachau Swyddogol, 1911 ac 1989, Deddf Diogelu Data 2018 neu unrhyw ddeddfwriaeth ddiwygio yn cynnwys Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol EU2016/67 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiadur 1990.

**Cynghorir Ymwelwyr Dalfeydd i roi gwybod i'w cwmni yswiriant os ydynt yn defnyddio eu cerbydau eu hunain ar gyfer ymweliadau.**

## 10 IMIWNEIDDIAD

Efallai y byddwch yn dymuno gofyn am gyngor gan eich meddyg ynglŷn ag imiwneiddio. Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn talu am unrhyw imiwneiddio unwaith y byddant wedi derbyn copi o'r bil a dalwyd.

## 11 YSWIRIANT

Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd bolisi yswiriant damweiniau personol ar gyfer unrhyw ddamweiniau y gallai Ymwelwyr Dalfeydd eu dioddef wrth ymgymryd â'u dyletswyddau.

## 12 CYHOEDDUSRWYDD

Dylech roi gwybod i, a gofyn caniatâd Gweinyddwr y Cynllun yn y lle cyntaf cyn ymateb i unrhyw gais a gewch sy'n gofyn i chi wneud sylwadau cyhoeddus am eich rôl fel Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol.

## 13 AELODAETH Y PANEL YMWELWYR DALFEYDD ANNIBYNNOL/MYNYCHU CYFARFODYDD Y PANEL

Byddwch yn aelod o'r Panel Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol a bydd disgwyl i chi fynychu cyfarfodydd y panel lle gellir trafod unrhyw bryderon sydd yn dod i'r amlwg yn sgil ymweliadau.

Os byddwch yn methu cyfarfodydd y panel yn gyson heb reswm da mae'n bosib y bydd eich cytundeb yn cael ei derfynu.

## 14 YMHOLIADAU

Dylech gyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cynllun at y Prif Weithredwr ar 01492 805486.

Dylech lofnodi isod i ddangos eich bod yn cytuno i fod yn rhwym wrth ganllawiau'r Cynllun Ymweliadau Dalfeydd Annibynnol. Bydd copi o'r memorandwm o ddealltwriaeth hwn yn cael ei anfon atoch er mwyn i chi allu cyfeirio ato os bydd angen.

| Llofnod: | Llofnod: |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Prif Weithredwr: | Enw: |
| Dyddiad: | Dyddiad: |

**Mae hawl gan Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i derfynu eich aelodaeth o’r Cynllun pe baech yn torri’r canllawiau neu’r cytundeb hwn.**

**SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

**PENODIADAU, AILBENODIADAU A'R DREFN APELIO**

**Nod**

- **Rhoi arweiniad i'r Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd**
- **Gosod amserlen gyraeddadwy ar gyfer penodi ac ailbenodi unigolion a'r drefn apelio**
- **Darparu proses deg a chytbwys ar gyfer yr holl bartïon perthnasol**

1. Pan fydd Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol yn cael ei benodi bydd angen iddynt arwyddo Memorandwm o Ddealltwriaeth sy'n nodi'r hyn y mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ei ddisgwyl ganddynt. Bydd hefyd yn nodi'r hyn y gall yr Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol ei ddisgwyl gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd o ran cefnogaeth, hyfforddiant ac adborth.

2. Mae pob penodiad yn amodol ar gyfnod prawf a dim ond ar ddiwedd cyfnod prawf llwyddiannus y bydd penodiad unigolyn yn cael ei gadarnhau. Wrth benderfynu beth sy'n llwyddiannus bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystyried y nifer o ymweliadau a gynhaliwyd, adborth gan Ymwelwyr Dalfeydd eraill, Staff y Ddalfa a Staff yr Heddlu ynghyd â safbwyntiau Gweinyddwr y Cynllun.

3. Yn dilyn cyfnod prawf boddhaol, bydd Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol yn cael ei benodi am gyfnod o dair blynedd ac yn ystod y cyfnod hwn bydd yn cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â thelerau'r Memorandwm o Ddealltwriaeth. Bydd penodiad pob Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol yn cael ei adnewyddu ar ôl tair blynedd. Fodd bynnag bydd rhaid ystyried gallu'r unigolyn i barhau â'r dyletswyddau a'i barodrwydd i gyflawni'r rôl yn effeithiol wrth ystyried a ddylid ei ailbenodi neu beidio.

4. Ar ddiwedd y cyfnod prawf bydd pob Ymwelydd Dalfeydd yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr i nodi os bydd yn cael ei benodi ai peidio. **Os na fydd yr Ymwelydd Dalfeydd yn cael ei benodi mae ganddo hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (gweler yr wybodaeth am y broses apelio isod).**

5. Ar ddiwedd pob cyfnod o dair blynedd, ac os bydd yr Ymwelydd Dalfeydd yn dymuno parhau â'r rôl, bydd y Prif Weithredwr yn penderfynu a ddylid ehangu tymor penodi'r unigolyn am dair blynedd arall. Bydd y Prif Weithredwr yn ystyried y nifer o ymweliadau a gynhaliwyd, adborth gan Ymwelwyr Dalfeydd eraill, Staff y Ddalfa a Staff yr Heddlu ynghyd â safbwyntiau Gweinyddwr y Cynllun. **Os na fydd yr Ymwelydd Dalfeydd yn cael ei ailbenodi mae ganddo hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (gweler yr wybodaeth am y broses apelio isod).**

6. Caniateir i Ymwelwyr Dalfeydd wasanaethu am dri thymor o dair blynedd yn unig a hynny er mwyn gwarchod annibyniaeth y cynllun. Does dim hawl i apelio yn erbyn ailbenodiad os yw ymwelydd dalfeydd eisoes wedi gwasanaethu am naw mlynedd.
7. Gall unigolion ymgeisio am safle fel Ymwelydd Dalfeydd yn dilyn seibiant o dair blynedd o'r cynllun ymweld.

**Y Broses Apelio**

1. Bydd y drefn apelio mewn perthynas â phob mater sy'n ymwneud â phenodi neu ailbenodi Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol yn cael ei gyflawni fel a ganlyn:-

2. Mae gan Ymwelydd Dalfeydd hawl i apelio i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn erbyn penderfyniad y Prif Weithredwr i wrthod penodiad neu ailbenodiad.

3. Rhaid i'r rhesymau llawn am apelio gael eu hanfon at y Comisiynydd Heddlu a Throsedd o fewn **28 diwrnod gwaith.**

4. Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael penderfyniad a rhesymeg y Prif Weithredwr ac argymhelliad yr Ymwelydd Dalfeydd i'w ystyried. Gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd geisio cyngor gan gynrychiolydd o Adnoddau Dynol i'w gynorthwyo gyda'r apêl.

5. Gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ofyn i gyfarfod â'r Ymwelydd Dalfeydd i drafod yr apêl. Bydd yr Ymwelydd Dalfeydd yn cael y cyfle i holi unrhyw gwestiynau. Gall yr Ymwelydd Dalfeydd ddod gyda ffrind.

6. Os yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystyried nad oes disgwyl i'r apêl lwyddo, ni fydd cyfarfod yn cael ei gynnal.

7. Anfonir penderfyniad yr apêl at yr Ymwelydd Dalfeydd cyn gynted ag y mae'n ymarferol. Ni wnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynnal trafodaethau na gohebu ymhellach o ran unrhyw wrthodiad i benodi neu ailbenodi.

8. Os bydd yr apêl yn cael ei chefnogi bydd yr Ymwelydd Dalfeydd yn cael ei benodi/ailbenodi yn syth fel Ymwelydd y Ddalfa a bydd yn cael ei ychwanegu ar y rota.

**SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

**SWYDD DDISGRIFIAD**

**Rôl:** Cydlynydd yr Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol

**Pwrpas y Rôl:** Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn penodi un Ymwelydd Dalfeydd ym mhob un o'r tair ardal i fod yn Gydlynydd ar gyfer y cynllun.

**Cyfrifoldebau Cyffredinol:**

1. Llunio rota er mwyn sicrhau bod yr Ymwelwyr Dalfeydd yn ymweld â phob dalfa yn yr ardal y lleiafswm angenrheidiol o weithiau.

2. Sicrhau bod yr Ymwelwyr Dalfeydd yn cynnal y lleiafswm angenrheidiol o ymweliadau (10 y flwyddyn) a hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd o unrhyw newid mewn amgylchiadau fyddai'n gallu effeithio ar eu gallu i ymweld â dalfeydd e.e. salwch tymor hir ayyb.

3. Dan rai amgylchiadau penodol gall cydlynwyr ofyn i ymwelwyr dalfeydd o Ardal arall gynorthwyo gydag ymweliadau. Gall cydlynwyr gysylltu ag ymwelwyr dalfeydd yn uniongyrchol i drefnu'r ymweliadau hyn. Mae'n rhaid i gydlynwyr roi gwybod i'w gilydd os cynhaliwyd ymweliadau gan ymwelwyr o Ardal arall.

4. Trefnu cyfarfodydd rheolaidd yn yr ardal

5. Cadw cofnod o weithgareddau Ymwelwyr Dalfeydd yr ardal

6 Sicrhau bod yr holl faterion perthnasol sy'n codi yn ystod yr ymweliadau yn cael eu dwyn i sylw Gweinyddwr y Cynllun a'r Heddlu

7. Sicrhau bod yr Ymwelwyr Dalfeydd, Gweinyddwr y Cynllun a'r Heddlu yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd.

Bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cefnogi'r Cydlynydd drwy roi cymorth a chyngor iddo/i, a bydd yn talu am ddeunydd ysgrifennu, costau hurio ystafell gyfarfod a chostau gweinyddol eraill megis galwadau ffôn.

**SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

**CWYNION AM GAMYMDDYGIAD A'R DREFN APELIO**

**Nod**

- **Rhoi arweiniad i'r Ymmwelwyr Dalfeydd Annibynnol, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Heddlu**
- **Gosod amserlen gyraeddadwy ar gyfer datrys cwynion am gamymddygiad a'r drefn apelio.**
- **Darparu proses deg a chytbwys ar gyfer yr holl bartïon perthnasol**

**Cwynion am Gamymddygiad**

1. Er bydd yr holl gwynion a dderbynnir yn cael eu cymryd o ddifrif a'u trin felly, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ymdrechu i ddiogelu hawliau'r Ymwelydd Dalfeydd sy'n destun cwyn o'r fath.

2. Gall y Prif Weithredwr hysbysu ymwelwyr dalfeydd annibynnol unigol yn anffurfiol am achosion **bychan** o gamymddygiad a phenderfynu peidio â chymryd camau pellach. Bydd unrhyw gŵyn am gamymddygiad Ymwelydd Dalfeydd yn cael ei chadw ar ei Ffeil Bersonol. Fe hysbysir yr achwynydd bod y mater wedi'i ddelio ag o yn anffurfiol ac na fydd unrhyw gamau pellach yn cael eu cymryd. Ni ddadlennir pwy ydi'r achwynydd ac ni fydd y manylion yn cael eu cadw gyda'r ffeil bersonol.

3. Os bydd y Prif Weithredwr yn credu bod y gŵyn yn un **ddifrifol** neu os oes cwynion eraill wedi'i gwneud yn y gorffennol, bydd y Prif Weithredwr yn dwyn y mater i sylw'r Ymwelydd Dalfeydd cyn gynted â phosib. Bydd hyn o fewn **3 diwrnod gwaith** i'r gŵyn gael ei gwneud ar yr hwyraf.

4. Bydd cyfle i'r Ymwelydd Dalfeydd gyflwyno unrhyw wybodaeth berthnasol yn ysgrifenedig o fewn **7 diwrnod gwaith.**

5. Unwaith bydd y Prif Weithredwr wedi derbyn datganiad yr Ymwelydd Dalfeydd bydd yn gwneud ymholiadau perthnasol angenrheidiol er mwyn pennu os oes sail i'r gŵyn/honiad neu achos o bryder. Wrth wneud hynny, a gan ddibynnu ar natur y gŵyn/honiad/achos o bryder, bydd y Prif Weithredwr yn cysylltu gydag un neu'r holl bartïon canlynol:

    - Yr Achwynydd
    - Cydlynydd y Ddalfa berthnasol
    - Ymwelwyr Dalfeydd eraill
    - Arolygydd y Ddalfa
    - Unrhyw unigolyn arall fyddai'n gallu darparu gwybodaeth berthnasol

6. Bydd y Prif Weithredwr yn ysgrifennu at yr uchod o fewn **24 awr** iddo/i dderbyn datganiad yr Ymwelydd Dalfeydd i ofyn iddynt gyflwyno gwybodaeth, a bydd gofyn i'r datganiadau gael eu cyflwyno'n ysgrifenedig o fewn **7 diwrnod gwaith.**

7. Bydd y Prif Weithredwr yn hysbysu'r Cydlynydd i beidio â gofyn i'r Ymwelydd Dalfeydd gynnal ymweliadau hyd nes bydd y mater wedi'i ddatrys.

8. Ar ôl i'r Prif Weithredwr gasglu'r wybodaeth a nodwyd uchod ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall, bydd yn ystyried y mater.

9. Mi fydd y Prif Weithredwr yn argymell un o'r canlynol. Bod yr Ymwelydd Dalfeydd:-

    - Yn cael cyngor ynghylch ei ymddygiad yn y dyfodol,
    - Yn cael ei atal rhag ymweld â dalfeydd hyd nes bydd wedi cwblhau cwrs hyfforddi pellach,
    - Yn cael ei ddiswyddo neu'n derbyn cais i ymddiswyddo o'r Cynllun Dalfeydd.

10. Bydd yr Ymwelydd Dalfeydd yn derbyn hysbysiad gan y Prif Weithredwr cyn gynted ag y mae'n ymarferol. Bydd ganddynt yr hawlio i apelio ar y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Rhaid i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gael ei hysbysu am resymau llawn yr apêl o fewn **28 diwrnod gwaith,** (gweler y broses apeliadau isod).

**Y Drefn Apelio**

1. Dyma'r drefn apelio o safbwynt penderfyniadau a wnaed gan Banel Camymddygiad y Ddalfa:-

2. Bydd yr Ymwelydd Dalfeydd yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig gan y Prif Weithredwr o'i benderfyniad ynglŷn â'r ymddygiad.

3. Mae gan Ymwelydd Dalfeydd hawl i apelio i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn erbyn penderfyniad y Prif Weithredwr.

4. Byddai rhaid hysbysu'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd o fwriad i apelio o fewn **28 diwrnod gwaith.**

5. Bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael penderfyniad a rhesymeg y Prif Weithredwr ac argymhelliad yr Ymwelydd Dalfeydd i'w ystyried. Gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd geisio cyngor gan gynrychiolydd o Adnoddau Dynol i'w gynorthwyo gyda'r apêl.

6. Gall y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ofyn i gyfarfod â'r Ymwelydd Dalfeydd i drafod yr apêl. Bydd yr Ymwelydd Dalfeydd yn cael y cyfle i holi unrhyw gwestiynau. Gall yr Ymwelydd Dalfeydd ddod gyda ffrind.

7. Os yw'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystyried nad oes disgwyl i'r apêl lwyddo, ni

fydd cyfarfod yn cael ei gynnal.

8. Anfonir penderfyniad yr apêl at yr Ymwelydd Dalfeydd cyn gynted ag y mae’n ymarferol. Ni wnaiff y Comisiynydd Heddlu a Throsedd gynnal trafodaethau na gohebu ymhellach o ran yr apêl.

9. Os bydd yr apêl yn cael ei chefnogi bydd yr ymddygiad yn cael ei dynnu o gofnod personol yr Ymwelydd Dalfeydd. Os ydynt wedi cael eu gwahardd cânt eu hailbenodi’n syth fel Ymwelydd Dalfeydd a’u hychwanegu at y rota ymweliadau.

## SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## TAFLEN WYBODAETH AR GYFER UNIGOLION SYDD WEDI CAEL EU CHWISTRELLU Â SYLWEDD ANALLUOGI CAPTOR

Rydych wedi cael eich chwistrellu â:-

**NONIVAMIDE – CAS rhif 244 – 46 – 4** ar grynhoad o 0.3% mewn hydoddydd 50/50 o Ethanol a Dŵr gyda gyriant Nitrogen.

Mae'n bosib y bydd yn eich effeithio fel a ganlyn:-

**CAPTOR**

Bydd eich llygaid yn annifyr a'ch croen yn teimlo fel pe bai'n llosgi. Os ydych wedi llyncu ychydig o'r sylwedd ni ddylech deimlo unrhyw boen mewnol o gwbl, er bydd eich ceg yn teimlo fel petaech wedi bwyta bwyd poeth fel cyri.

O fewn 35 munud i chi gael ei chwistrellu bydd y rhan fwyaf o'r symptomau yn diflannu ohonynt eu hunain. Efallai bydd eich croen yn goch ac yn teimlo'n boeth am tua awr, ond wedyn bydd yn dechrau troi yn ôl i'w liw arferol. Mae hyn yn gwbwl arferol oherwydd bod Nonivamide yn adfywio cylchrediad y gwaed ac mae ei effaith yn debyg i effaith hufen lleddfu poen yn y cyhyrau.

Os bydd y symptomau yn parhau, golchwch eich wyneb a'ch llygaid â dŵr oer, glân o'r tap a dylech deimlo'n well yn fuan iawn. Os yw'r sylwedd wedi cyffwrdd â'ch aeliau, eich gwallt neu eich barf, mae'n bosibl y bydd yn ail-actifadu y tro nesaf y byddwch mewn dŵr - e.e. yn y gawod y diwrnod wedyn. Ni fydd yr effaith mor gryf â'r tro cyntaf ac mae modd osgoi'r effaith yn gyfan gwbl trwy gau'r llygaid yn dynn a defnyddio digon o ddŵr i olchi'r sylwedd i ffwrdd.

Os bydd y symptomau yn parhau dylech gysylltu â'ch meddyg. **<u>Ewch â'r daflen hon gyda chi.</u>**

Gallai'r Captor achosi niwed i rai mathau o lensys cyffwrdd. Os cewch broblemau gyda'ch lensys, dylech fynd i weld eich optegydd. **<u>Ewch â'r daflen hon gyda chi.</u>**

**<u>Cymysgedd Ethanol a Dŵr</u>**

Cymysgedd 50/50 yw hwn. Ni ddylai'r hydoddydd gael unrhyw effaith arall ar eich croen. Os ydych yn bryderus am unrhyw reswm, ewch i weld eich meddyg. **<u>Ewch â'r daflen hon gyda chi.</u>**

## SWYDDFA COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## POLISI COSTAU TEITHIO A CHYNHALIAETH

**Mae rôl Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol yn gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, bydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn talu am unrhyw rai o'r mân dreuliau canlynol.**

**O 1 Medi 2019 gwneir holl hawliadau am dreuliau drwy wefan DutySheet, [https://psv.dutysheet.com/](https://psv.dutysheet.com/) - Gwnaiff Cydlynydd y Cynllun roi manylion mewngofnodi i chi.**

**Costau Teithio**

Bydd y cyfraddau milltiroedd canlynol yn daladwy o 1 Ebrill 2017 ymlaen:

45 ceiniog pob milltir

Telir costau teithio am unrhyw bellter rydych yn ei deithio yn eich car o ganlyniad i'ch ymweliadau. Mae hyn yn cynnwys:

- Pellter o'ch tŷ i ddalfeydd yr heddlu
- Nôl eich cydweithiwr ar y ffordd i'r ddalfa, lle bo angen
- Mynychu cyfarfodydd y Panel
- Mynychu cyrsiau hyfforddi
- Mynychu digwyddiadau a chyfarfodydd eraill ar gais Gweinyddwr y Cynllun

Bydd y lwfans teithio yn cael ei addasu'n awtomatig yn unol ag argymhellion CThEM a byddwn yn hysbysu'r Ymwelwyr Dalfeydd pan fydd y gyfradd yn codi.

Anogir Ymwelwyr Dalfeydd i deithio i ddalfeydd yr heddlu gyda'i gilydd lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn ymarferol bob tro.

Byddwch yn cael ad-daliad am unrhyw gyfarfodydd a chynadleddau y byddwch yn eu mynychu y tu allan i Ogledd Cymru ar ffurf tocyn trên dosbarth safonol. Pan fyddwch yn dewis eich dull o deithio i leoliad sydd y tu allan i Ogledd Cymru, dylech roi ystyriaeth ymlaen llaw i werth am arian a gwneud arbedion. (Os mai hedfan yw'r dewis mwyaf cost effeithiol ar gyfer unrhyw daith benodol, mae modd trefnu hyn trwy gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd).

**Parcio**

Os bydd rhaid i chi dalu am barcio eich car mewn maes parcio tra byddwch yn ymweld â dalfa, fe gewch yr arian yn ôl gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Rhaid atodi'r dderbynneb parcio berthnasol i'ch ffurflen hawlio treuliau er mwyn profi eich bod wedi parcio yno.

**Arall**

Mae modd i chi hawlio arian yn ôl pan fyddwch yn teithio ar fws neu drên **i ymweld â dalfa.** Fel gyda'r tocyn parcio, rhaid atodi'r dderbynneb neu'r tocyn i'ch ffurflen hawlio treuliau.

Gallwch hawlio ffioedd tacsi yn ôl pan fyddwch yn mynychu cynadleddau rhanbarthol yn unig. Bydd rhaid i chi atodi derbynneb ar gyfer pob siwrnai i'ch ffurflen hawlio treuliau.

**Llety**

Yn y mwyafrif o achosion, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddylai archebu llety i chi (gwely a brecwast) a naill ai:

- ei dalu'n uniongyrchol ble bynnag y bydd hynny'n bosibl; **neu**
- ad-dalu'r gwir swm a wariwyd i chi

Ni fydd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ad-dalu cost unrhyw fân eitemau/eitemau atodol fel papurau newydd, galwadau ffôn a diodydd. Dylai Ymwelwyr Dalfeydd dalu am y rhain o'u pocedi eu hunain cyn gadael.

Cynghorir unrhyw Ymwelydd Dalfeydd sydd eisiau trefnu ei lety ei hun i drafod y mater gyda Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

**Cynhaliaeth**

Dylai holl gostau prydau a llety gael derbynebau lle bo'n bosibl. Os, am ba bynnag reswm, na ellir cael derbynneb TAW, dylai'r hawliad gynnwys eglurhad byr am yr amgylchiadau.

Ad-delir costau prydau a llety, ar yr amod eu bod yn:

(1) Angenrheidiol
(2) Rhesymol
(3) Ychwanegol at yr hyn fyddai'r Ymwelydd Dalfeydd wedi mynd i gostau fel arall ac
(4) Wedi'i gefnogi gan dderbynneb TAW, lle bo'n bosibl

Ni ellir gwneud hawliad fel arfer os darperir prydau ond nad yw'r unigolyn yn manteisio ar y ddarpariaeth hon, neu lle na all trefniadau bwyta arferol unigolyn gael eu cyfateb yn fras ar gost ychwanegol.

**Nid oes raid anfon cais ar ôl pob ymweliad, ond gofynnwn i chi eu hanfon atom yn rheolaidd, h.y. bob mis neu bob chwarter er mwyn ein helpu i fonitro'r gyllideb.**

**Os hoffech eglurhad pellach ar dalu treuliau, mae croeso i chi gysylltu â Gweinyddwr y Cynllun.**

**Rhagfyr 2019**